Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL ADRODDIAD CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL AR GYFER 2016-2017

## CYNNWYS

**Tudalen**


**ADRAN 1:** RHAGAIR 3

**ADRAN 2:** CYFLWYNIAD A CHEFNDIR 4

**ADRAN 3:** GWYBODAETH BERTHNASOL 9

**ADRAN 4:** ASESU PERFFORMIAD 10
CRYNODEB O GYNNYDD YN ERBYN CYFLENWI
NODAU CYDRADDOLDEB Y CYNGOR

**ADRAN 5:** ASESIAD EFFAITH 17

**ADRAN 6:** YMWYBYDDIAETH CYFLOGAI 18

**ADRAN 7:** DATA'R GWEITHLU 19

**ADRAN 8:** CAFFAEL 20

**ADRAN 9:** CYFAMOD CYMUNEDOL Y LLUOEDD ARFOG 21

**ADRAN 10:** YR IAITH GYMRAEG 22

**ADRAN 11:** GWYBODAETH GYSWLLT 23

**ATODIAD A** 24
CYNNYDD YN ERBYN CYFLENWI
NODAU CYDRADDOLDEB AR GYFER 2016 2020 (DIWEDDARIAD AR GYFER 2016 2017)

**ATODIAD B** 43
DATBLYGIADAU CYDRADDOLDEBAU ERAILL

**ATODIAD C** 45
DATA'R GWEITHLU

**ATODIAD D** 53
CYSYLLTIAD RHWNG NODAU CYDRADDOLDEB STRATEGOL Y CYNGOR AR GYFER 2016 2020 A DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015 A DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014

## ADRAN 1

## RHAGAIR

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn falch o gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol cyntaf ar gyfer ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016 2020. Cafodd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn ei baratoi yn unol â gofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol)(Cymru) 2011 ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor Cyflawn ar 23 Mawrth 2016.

Drwy'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol mae'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol hwn ar gyfer 2016 2017 yn destament i ysfa gyfredol y Cyngor i wneud cynnydd o ran ei agenda cydraddoldeb a chyflenwi ein Gweledigaeth Cydraddoldebau ar gyfer Merthyr Tudful, sef:

- ***Lle ble y mae amrywiaeth yn cael ei gwerthfawrogi a'i pharchu a ble y gall pawb gyfranogi, ffynnu a chael y cyfle i gyflawni ei botensial yn rhydd o wahaniaethu a rhagfarn.***

Mae'r Cyngor yn gweithio tuag at gyflenwi'r Weledigaeth hon drwy ein rôl fel arweinydd cymunedol, darparwr gwasanaethau, comisiynydd, cyflogwr a gweithio mewn partneriaeth i leihau anghydraddoldebau a gwella llesiant y Cyngor Bwrdeistref.

Yr wyf yn cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol hwn i chi ac yn edrych ymlaen at rannu'r cynnydd yr ydym yn ei wneud tuag at gyflawni tegwch mewn cydraddoldeb ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

**Y Cynghorydd Chris Davies**
**Hyrwyddwr Cydraddoldebau ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**

## ADRAN 2

## CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) yn dwyn ynghyd ac yn cymryd lle cyfreithiau gwrth wahaniaethu mewn un Ddeddf unigol. Y mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith, gan gymryd ymaith unrhyw anghysondebau a'i wneud yn haws i bobl ddeall y gyfraith a chydsynio â hi. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd newydd o ran cydraddoldeb y sector cyhoeddus (y 'ddyletswydd gyffredinol') gan gymryd lle'r dyletswyddau ar wahân ar gydraddoldeb hil, anabledd a rhywedd. Daeth hyn i rym ar 5 Ebrill 2011.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol newydd yn cynnwys y nodweddion canlynol a ddiogelir:

- Oed.
- Ailbennu rhywedd.
- Rhyw.
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd.
- Anabledd.
- Beichiogrwydd a mamolaeth.
- Tueddfryd rhywiol.
- Crefydd neu gred – yn cynnwys diffyg cred.

Y mae'n gymwys i briodas a phartneriaeth sifil, ond dim ond o ran y gofyniad i dalu'r sylw dyledus i'r angen i gael gwared ar wahaniaethu.

**Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?**

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau fod awdurdodau cyhoeddus a'r rheini sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy ddatblygu cydraddoldeb a pherthnasoedd da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau fod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu hadolygu'n gyson. Bydd hyn yn cyflawni gwell deilliannau i bawb.

Mae'n ofynnol bod cyrff cyhoeddus yn talu sylw dyledus i'r anghenion canlynol:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon, ac ymddygiad arall a gaiff ei wahardd gan y Ddeddf.
- Datblygu cydraddoldeb cyfleoedd rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a ddiogelir sy'n berthnasol a'r rheini nad ydynt.
- Meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a rennir a'r rheini nad ydynt.

**Dyletswyddau penodol yng Nghymru**

Diben eang y dyletswyddau penodol yng Nghymru yw helpu cyrff a restrir wrth iddynt berfformio'r ddyletswydd gyffredinol a chynorthwyo tryloywder.

**Beth yw'r dyletswyddau penodol?**

Caiff y dyletswyddau penodol yng Nghymru eu gosod allan yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol)(Cymru) 2011. Daeth y dyletswyddau penodol i rym yng Nghymru ar 6 Ebrill 2011.

Mae'r dyletswyddau penodol yng Nghymru yn cynnwys:

- Nodau .
- Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol.
- Ymgysylltiad.
- Asesu effaith.
- Gwybodaeth gydraddoldeb.
- Gwybodaeth gyflogaeth.
- Gwahaniaethau cyflog.
- Hyfforddi staff.
- Caffael.
- Adrodd yn ôl blynyddol.
- Cyhoeddi.
- Adrodd yn ôl gan Weinidogion Cymru.
- Adolygu.
- Hygyrchedd.

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol**

Roedd dyletswyddau penodol yng Nghymru yn cynnwys gofyniad ar gyfer cyrff rhestredig i ddatblygu a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol erbyn 2 Ebrill 2012 a oedd yn cynnwys nodau cydraddoldeb.

Cafodd Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor a'r Nodau Cydraddoldeb ar gyfer 2012 2016 eu cymeradwyo gan y Cyngor Cyflawn ar 29 Chwefror 2012.

Mae'n ofynnol hefyd yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fod y Cyngor yn adolygu ei Gynllun a Nodau Cydraddoldeb Strategol bob pedair blynedd o leiaf.

Er mwyn cefnogi adolygiad o Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor a Nodau Cydraddoldeb ar gyfer 2012 2016 cafodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen ei sefydlu.

Roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys Hyrwyddwr Cydraddoldebau'r Cyngor, Swyddogion y Cyngor a rhanddeiliaid allweddol sy'n cynrychioli grwpiau yn y gymuned sy'n anodd cyrraedd atynt.

Daeth y rhanddeiliaid allweddol hyn o Brosiect MAGNET Llais y Gymuned Cronfa'r Loteri Fawr (Merthyr yn Cyflawni Gwell Rhwydweithio ac Ymrwymiad Gyda'i Gilydd), sy'n darparu cyfle i aelodau o gymunedau ymylol gynyddu eu llais wrth ddylanwadu ar brosesau polisi, cynllunio a chyflenwi darparwyr gwasanaeth. Mae Portffolio Merthyr Tudful wedi ei wneud o'r saith prosiect canlynol, bob un wedi ei arwain gan wahanol sefydliadau gwirfoddol:

- **Gweledol –** Dod â'r bobl ganlynol at ei gilydd: Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT) i ddarparu cefnogaeth a hyrwyddo eu llais oddi fewn i Ferthyr Tudful.
- **Canolbwynt** – Ymgysylltu â Gweithwyr Mudol, gan hwyluso cynhwysiant a chydlynu, gwella ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn y gymuned ehangach.
- **Pontydd –** Codi hyder a sgiliau gyda'r gymuned Sipsi / Teithio a chreu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltiad effeithiol â gwasanaethau lleol.
- **Un Llais –** Eiriolaeth ac ymrymuso i Bobl Anabl i gytuno ar weithredu ar y cyd ac ymgysylltiad â darparwyr gwasanaeth.
- **Perthyn –** Prosiect aml genhedlaeth rhwng pobl hŷn ac iau sy'n byw mewn tai cymdeithasol, canolbwyntio ar bolisïau tai yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Cyflenwir yng Nghaedraw, Gurnos a Threlewis.
- **POSSIB –** Prosiect celfyddydol dwyieithog i feithrin perthynas dynion ifanc mewn gwaith, rhieni a phlant mewn meysydd yn ymwneud ag iechyd, llesiant, cyflogaeth ac addysg. Cyflenwir yng Nghlwstwr Gogleddol Cymunedau yn Gyntaf.
- **Llawn Addewid –** Prosiect cyfryngol ieuenctid ble mae gohebwyr ifanc yn cyfleu negeseuon cadarnhaol am bobl ifanc a Merthyr Tudful a chyfathrebu â darparwyr gwasanaeth a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

Darparodd yr ymgysylltiad hwn ymagwedd cyd gynhyrchiol â'r rhanddeiliaid i adolygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac ychwanegu gwir werth a her.

Roedd yr adborth oddi wrth Arweinwyr Prosiect MAGNET yn gadarnhaol iawn gan yr ymddengys eu bod wedi cymryd rhan wrth helpu i lywio a llunio'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig.

Fel rhan o adolygiad Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor, cafodd ei ddynodi fod Gweledigaeth Cydraddoldebau ar gyfer Merthyr Tudful yn hanfodol er mwyn gosod allan Uchelgais y Cyngor i gael gwared ar wahaniaethu / aflonyddu, gweld cynnydd o ran cydraddoldeb a meithrin perthnasoedd da. Cafodd y Weledigaeth Cydraddoldeb canlynol ei datblygu ar gyfer Merthyr Tudful:

- ***Lle ble y mae amrywiaeth yn cael ei gwerthfawrogi a'i pharchu a ble y gall pawb gyfranogi, ffynnu a chael y cyfle i gyflawni ei botensial yn rhydd o wahaniaethu a rhagfarn.***

Caiff y Weledigaeth ei chefnogi gan y pedwar Nod cydraddoldeb canlynol (rhestrir yn y tabl isod) sydd yn cael eu gosod allan yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ar gyfer 2016 2020. Cafodd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016 2020 ei gymeradwyo gan y Cyngor Cyflawn ar 23 Mawrth 2016.


| Themâu | Nodau cydraddoldeb |
|---|---|
| **Ymgysylltiad Cymunedol** | **Nod Cydraddoldeb 1**<br>Gosod lleisiau dinasyddion wrth galon gwneud penderfyniadau lleol fel bod eu cyfraniad yn cael ei ddeall, ei gydnabod a'i ddefnyddio i helpu'r Cyngor ddeall ac ymateb i anghenion ei gymunedau. |
| **Codi Ymwybyddiaeth am** | **Nod Cydraddoldeb 2**<br>Cefnogi a hwyluso hyfforddiant cydraddoldebau a chyfleoedd dysgu fel bod staff ar bob lefel, Cynghorwyr a phartneriaid yn |

| | |
|---|---|
| **Gydraddoldeb** | cydnabod ac ymgorffori Cydraddoldebau fel rhan o'u rôl. |
| **Deall ein Staff a'n Cymunedau** | **Nod Cydraddoldeb 3**<br>Datblygu systemau monitro gwydn i gasglu, coladu, monitro a chyhoeddi data cydraddoldebau am ein cyflogeion a chwsmeriaid, a fydd yn helpu'r Cyngor i sicrhau ei fod yn darparu gwasanaethau teg a hygyrch. |
| **Rhywedd/Cyflog Cyfartal** | **Nod Cydraddoldeb 4**<br>Sicrhau tegwch o ran cyflog ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. |

Cafodd y Nodau Cydraddoldeb hyn eu hysgrifennu mewn partneriaeth â Swyddogion a phartneriaid y Cyngor a byddant yn cael eu cyflenwi drwy Gynllun Gweithredu sy'n cael ei osod allan yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016 2020. Caiff cynnydd yn erbyn cyflenwi'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2016 17 ei atodi fel Atodiad A.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae Gweledigaeth a Nodau Cydraddoldeb y Cyngor ar gyfer 2016 2020 yn cefnogi Nodau Llesiant y Cyngor a'r Saith Nod Llesiant (dangosir yn y diagram isod) ac yn cysylltu â'r pum ffordd o weithio (Egwyddor Datblygu Cynaliadwy) sy'n cael eu gosod allan yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 .



Mae'r tabl yn Atodiad D yn arddangos sut mae cydraddoldeb y Cyngor ar gyfer 2016 2020 yn cysylltu â'r canlynol:

- Y saith Nod Llesiant a'r pum ffordd o weithio a gaiff eu gosod allan yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 .
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## ADRAN 3

## GWYBODAETH BERTHNASOL

Cafodd y wybodaeth berthnasol ganlynol ei defnyddio i lywio adolygiad o’r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2012 2016 ac i gynhyrchu’r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016 2020:

- Adroddiadau Monitro Cydraddoldeb Blynyddol y Cyngor
- Gwella Adolygiad gan Gymheiriaid Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a gyflawnwyd gan y Cyngor ym mis Mehefin 2013 ac Adolygiad gan Gymheiriaid dilynol a ymgymerwyd gan Archwiliad Mewnol ym mis Rhagfyr 2014.
- Ymgysylltu â Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- Nodau cydraddoldeb oddi wrth Gynghorau Cymraeg eraill a sefydliadau’r sector cyhoeddus.
- Canllawiau ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Adroddiadau a data oddi wrth Bortffolio MAGNET (Merthyr yn Cyflawni Rhwydweithio Ehangach ac Ymgysylltu Ynghyd).
- Data Trosedd Casineb a Cham drin Domestig.
- Cynllun Cyflenwi Cenedlaethol Cydlyniant Cymunedol.
- Ydy Cymru’n Decach? Adroddiad; Heriau sy’n dod i’r Wyneb.
- Anabledd Cymru, Polisi Gwasanaethau Rheilffordd Hygyrch, 2010.
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Amcangyfrifon Poblogaeth gan Awdurdod Lleol ac Oedran, 2015.
- Ystadegau Priodasau a Phartneriaethau Sifil, Cyfrifiad 2011
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ystadegau Cenhedlu, 2013.
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Amcangyfrifon Poblogaeth gan Awdurdod Lleol ac Ethnigrwydd, 2011.
- Ystadegau Crefydd a Chredo, Cyfrifiad 2011.
- Arolwg Integredig y Cartref, Llywodraeth Cymru, Hunaniaeth Rywiol yn ôl Ardal a Statws Hunaniaeth, 2013.
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Amcangyfrifon Poblogaeth gan Awdurdod Lleol a Rhywedd, 2014.

## ADRAN 4

## ASESU PERFFORMIAD = CRYNODEB O GYNNYDD YN ERBYN CYFLENWI NODAU CYDRADDOLDEB Y CYNGOR

Gellir gweld cynnydd yn erbyn cyflenwi nodau cydraddoldeb y cyngor ar gyfer 2016 17 yn Atodiad A yr Adroddiad Blynyddol hwn. Gellir gweld cynnydd ar ddatblygiadau cydraddoldebau eraill yn Atodiad B.

Fodd bynnag, er gwybodaeth, caiff rhai enghreifftiau o'r cynnydd a nodir yn Atodiad A a B eu dangos isod:

**Hyrwyddwr Cydraddoldebau a Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog**

- Er mwyn pwysleisio pwysigrwydd Cydraddoldebau a Chyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog ar draws y Cyngor, Y Cynghorydd Chris Davies yw Hyrwyddwr Cydraddoldebau'r Cyngor a'r Cynghorydd Andrew Barry yw Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog.

**Prosiect MAGNET**

- Mae'r Cyngor wedi gweithio mewn partneriaeth â Phrosiect MAGNET (Merthyr yn Cyflawni Rhwydweithio Ehangach ac Ymgysylltu Ynghyd) ers ei lansio yn 2013. Mae'r prosiectau sy'n llunio MAGNET wedi gweithio â thros 3,000 o breswylwyr ym Merthyr Tudful, gan eu galluogi nhw i gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus, derbyn cefnogaeth bwrpasol a helpu i oresgyn problemau maen nhw wedi dod ar eu traws yn eu bywydau a'u cymunedau.

  Mae prosiectau MAGNET hefyd wedi helpu unigolion a grwpiau i ddweud eu dweud, gan helpu gwasanaethau i fod yn fwy ymatebol i ddiwallu'r angen a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cydraddoldeb yn ein cymunedau.

  Mae'r Cyngor wedi elwa'n sylweddol o weithio mewn partneriaeth â MAGNET, ac fel enghraifft o hyn mae'r saith prosiect yn bodoli fel partner allweddol i ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ar gyfer 2016 2020.

  Mae'r Cyngor wedi parhau i ymgysylltu a gweithio gyda Phrosiect MAGNET. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o rai o'r llwyddiannau eraill o weithio mewn partneriaeth â MAGNET:

  - Y Maer a'n Haelod Seneddol lleol yn codi baner Enfys y tu allan i'r Ganolfan Ddinesig dros y tair blynedd diwethaf yn ystod mis LGBT fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i gefnogi ac ymgysylltu â'r gymuned LGBT ym Merthyr Tudful.
  - Sicrhau fod pobl anabl yn gallu dylanwadu ar ddyluniad terfynol mynediad i'r orsaf reilffordd ym Merthyr Tudful a chyflwyno lonydd cerdded glas fel rhan o welliannau Maes Parcio'r Castell, gan wneud mordwyo'n haws i bawb, nid yn unig y rheini sy'n anabl.
  - Caiff cyfarfodydd rheolaidd eu cynnal gyda'r Swyddog Prosiect Un Llais i drafod cynnydd ar y prosiect anabledd ac unrhyw faterion / pynciau perthnasol eraill.

Y mae hefyd yn bwysig i amlygu'r gwaith caled cyfredol ac ymrwymiad Pwyllgor ac Ymddiriedolwyr y Pentref Byd eang wrth gydlynu llwyddiant cyfredol Gŵyl y Pentref Byd eang ym Merthyr Tudful. Mae'r Ŵyl yn rhoi cyfle proffesiynol i aelodau o'r gymuned berfformio a llwyfan i sefydliadau sy'n hyrwyddo materion cydraddoldeb a gwahaniaethu, i estyn allan at bobl. Y mae'n dathlu amrywiaeth ond hefyd yn cydnabod pethau sy'n debyg ac yn cynnig y cyfle i ehangu gorwelion diwylliannol mewn modd creadigol llawn hwyl.

**insport Arian**

- Ym mis Chwefror 2017, cyflwynodd y Cyngor ei gais insport Arian i Banel Datblygu insport. Cyflwynodd y Prif Weithredwr, y Swyddog Datblygu Chwaraeon Anabledd a'r Rheolwr Risg Corfforaethol a Chydraddoldeb eu cyflwyniad a phenderfynodd y panel yn unfrydol i ddyfarnu insport Arian gan wneud y Cyngor yn un ymhlith pump o Gynghorau yng Nghymru i fod ar y lefel arian.

  Roedd yr adborth a gafwyd gan Banel Datblygu insport yn gadarnhaol iawn ac mae ambell ddarn wedi eu cynnwys isod:

  *"Sylwodd y panel fod dilysrwydd, arweiniad ac ymroddiad Prif Swyddog Gweithredol ac Arweinydd Cydraddoldeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, trwy gydol y broses, wedi bod yn gatalydd arwyddocaol ar gyfer llwyddiant hyd yma. Bydd datblygu eiriolwyr pellach ar gyfer cynhwysiant ym meysydd Addysg, Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar lefel uwch arweiniol, cyfatebol yn allweddol ar gyfer camau diweddarach insport a sicrhawyd y panel fod hyn eisoes wedi ei gydnabod ac yn cael ei weithredu. Mae brwdfrydedd ac ymgysylltiad staff CBS Merthyr Tudful â datblygiad a phrofi elfennau eraill sy'n rhan o brosiect insport yn cael eu gwerthfawrogi ac yn adlewyrchiad o ymroddiad ehangach ar gyfer cynhwysiant ac amrywiaeth."*

  *"Roedd hwn yn gyflwyniad safon Arian Datblygiad insport neilltuol. Roedd cyfoeth yn perthyn i'r cynnwys a chyd-destun yr hyn yr ydych yn eu gwneud a'r modd yr ydych yn eu gwneud yn lleol ymhob astudiaeth achos. Gwelwyd angerdd, ymroddiad a thryloywder y modd y mae cynhwysiant yn cael ei sicrhau yn gyson, ymhob elfen o gyflwyniad y tîm. Dangosodd CBS Merthyr Tudful ddealltwriaeth aeddfed o'r hyn y mae wedi ei gyflawni ym maes chynhwysiant gan nodi amcanion bras y deilliannau yn ymarferion gwaith pob maes darpariaeth. Mae ymgysylltiad ac ymgynghoriad â rhanddeiliaid wedi bod yn amrywiol a chreadigol ac wedi cynnwys unigolion a sefydliadau na fyddai, o bosib wedi cael eu cynnwys yn draddodiadol o'r blaen. Mae hyn wedi galluogi gwell hunanymwybyddiaeth, wedi gwella darpariaeth ac wedi cryfhau sefyllfa partneriaid i ddarparu'n gyson gan ddefnyddio'r un neges."*

  Dynodwyd y canlynol fel meysydd allweddol ar gyfer ymarfer da:

  - Cydnabyddiaeth o'r daith ar gyfer gwelliant a dysgu parhaus.
  - Ymroddiad at gynaliadwyedd trwy bartneriaid a chydweithio.
  - Gweithredu pwyllgorau craffu mewnol.

  Dathlwyd cyflawniad insport Arian yn achlysur lansio'r ffaith fod Stryd Fawr Merthyr Tudful yn 'Gyfeillgar i Awtistiaeth' ar 15 Medi 2017.

**Hyfforddiant Cydraddoldeb**

- Darparwyd hyfforddiant cydraddoldeb i Dîm Uwch Arweinyddiaeth y Cyngor a Chynghorwyr gan Brosiect MAGNET.

  Canolbwyntiodd yr hyfforddiant cydraddoldeb ar ddarparu cipolwg, gwybodaeth a dealltwriaeth i Gynghorwyr a Swyddogion am gymunedau gwahanol Merthyr Tudful.

  Darparwyd hyn mewn modd creadigol a dychmygus ond yn fwy pwysig, cafodd Cynghorwyr a Swyddogion gipolwg o fyd na fyddent, fel arall, wedi ei gael a rhoddwyd enghreifftiau penodol o brofiadau pobl o wasanaethau.

- Mae'r Hyfforddiant Cydraddoldeb canlynol wedi cael eu darparu drwy gyrsiau sy'n seiliedig ar chwaraeon:

  - Mynychodd 15 aelod o staff o 11 ysgol Active Kids for All (Hyfforddiant Cynhwysiant Cydraddoldeb.)
  - Mynychodd 20 myfyriwr o goleg Merthyr Active Kids for All (Hyfforddiant Cynhwysiant Cydraddoldeb.)
  - Mynychodd 18 cyfranogwr o amrywiaeth eang o bartneriaid Hyfforddiant Cynhwysiant Cydraddoldeb.
  - Mynychodd 7 aelod o staff y Cyngor, Swyddog Prosiect Gweledol o MAGNET a 2 Swyddog o'r Urdd Hyfforddiant Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol Chwaraeon Cymru.

- Mae 749 aelod o'r staff hyd yma wedi mynychu Gweithdy Codi Ymwybyddiaeth Rhwystro (hyfforddiant WRAP.) Mae rhwystro yn rhan o strategaeth gwrthderfysgaeth y Llywodraeth. Mae wedi ei gynllunio er mwyn ymdrin â phroblem derfysgaeth o'i darddiad gan rwystro pobl rhag cefnogi terfysgaeth neu fod yn rhan ohono.

  Cafodd 60 aelod ychwanegol o'r staff fynediad i gwrs hyfforddiant ar lein (a gymeradwywyd gan y Swyddfa Gartref.) Mae'r rhain yn ofalwyr plant ac yn staff yn yr Ymddiriedolaeth Hamdden. Mae'n agos iawn at hyforddiant WRAP ac yn fwy addas na cheisio trefnu sesiynau ystafell ddosbarth iddynt.

- Mae'r Cyngor wedi lansio adnodd e Ddysgu ar gyfer holl aelodau'r staff a Chynghorwyr a fydd yn galluogi'r Cyngor i gofnodi ac adrodd yn ôl am yr hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu trwy'r adnodd dysgu. Y modiwl gyntaf sydd wedi cael ei chwblhau yw Trais yn erbyn Merched, Cam drin Domestig a Thrais Rhywiol.

**Taflenni Ffeithiau Cydraddoldeb**

- Rydym yn gweithio â Chydlynydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol Cwm Taf ac yn ymgynghori â Phrosiect Llais Cymunedol MAGNET er mwyn datblygu Adnodd Dysgu Cydraddoldeb ar gyfer staff a Chynghorwyr. Rydym yn datblygu taflenni gwybodaeth ar gyfer y naw nodwedd a ddiogelir.

  Dyma, gobeithio bydd manteision disgwyliedig y taflenni ffeithiau:

- Gwella’n gwybodaeth o faterion cydraddoldeb lleol a chenedlaethol drwy ddiogelu nodweddion.
- Gwella’n dealltwriaeth o’n cwsmeriaid.
- Mae’r Cyngor yn hybu cydraddoldeb yn y gweithle.
- Bydd yn adnodd gwybodaeth ar gyfer staff wrth iddynt gwblhau Asesiad Effaith Integredig newydd y Cyngor.

Hyd yn hyn, mae tair taflen ffeithiau wedi cael eu datblygu ar gyfer Anabledd, Cyfeiriadedd Rhywiol a Hil. Mae’r rhain ar gael ar fewnrwyd y Cyngor.

**Monitro Cydraddoldeb**

**Staff:**

- Mae’r Cyngor wedi adolygu ei Ffurflen Fonitro Cydraddoldeb er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys y data Cydraddoldeb angenrheidiol am ei gyflogeion drwy ystyried Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus er mwyn adrodd yn ôl a chyflwyno gofynion gwybodaeth berthnasol.

  Mae’r Ffurflen Fonitro Cydraddoldeb sy’n cynnwys y data ar gydraddoldeb wedi cael ei datblygu fel ADRAN yn HR21 (HR21yw System Hunan Wasanaeth Cyflogeion a Rheolwyr y Cyngor.)

  Cafodd ei chyflwyno i’r holl staff ym mis Medi 2016. Mae’r staff nad ydynt yn defnyddio cyfrifiaduron wedi derbyn copïau caled o’r Ffurflen i’w chwblhau gan eu rheolwyr.

  Dychwelwyd 90% o’r wybodaeth ar gydraddoldeb gan staff i’r Cyngor.

  Mae hyn y cymharu â 18%, cynt a hynny ar draws Staff y Cyngor ac Ysgolion.

**Cymunedol:**

- Drwy weithio ar y cyd ag Uwch Dîm Arweiniol y Cyngor, cynhaliwyd ymarfer er mwyn adolygu pa ddata cydraddoldeb oedd yn cael ei gasglu gan feysydd gwasanaeth ar ddefnyddwyr y gwasanaeth, beth oeddent yn defnyddio’r data ar ei gyfer a sut oeddent yn adrodd yn ôl amdano.

  Canfu’r ymarfer fod meysydd gwasanaeth yn cofnodi lefelau gwahanol o ddata cydraddoldeb a’u bod yn eu defnyddio mewn ffyrdd gwahanol.

  Drwy weithio â chydweithwyr yn Lles Cymunedol, datblygwyd Ffurflen Fonitro Cydraddoldeb a hynny mewn ymgynghoriad â Chwaraeon Anabledd a Chydlyniant Cymunedol.

  Mae’r ffurflen wedi cael ei rhoi ar brawf gan feysydd gwasanaeth oddi fewn i’r Gwasanaeth Lles Cymunedol dros gyfnod o dri mis. Mae sampl wedi ei rheoli o ddefnyddwyr gwasanaeth.

  Mae deilliannau’r cynllun wedi cael eu dadansoddi a’u trafod gan gydweithwyr yn Lles Cymunedol er mwyn pennu effeithiolrwydd y ffurflen.

Y cam nesaf yw paratoi adroddiad ar gyfer y Tîm Rheoli Corfforaethol gan nodi canfyddiadau a deilliannau'r cynllun peilot.

**Cynllun Bod yn Hyderus o ran Anabledd**

- Yn Awst 2016, trosglwyddodd y Cyngor o Gynllun 'Two Ticks': Dau Dic: Cadarn o Blaid Pobl Anabl i'r Cynllun Bod yn Hyderus o ran Anabledd newydd yn sgil y newid a gyflwynwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

  Mae'r dyfarniad yn ardystio fod y Cyngor yn Gyflogwr Ymroddedig i Fod yn Hyderus o ran Anabledd sy'n arddangos ymroddiad y Cyngor i recriwtio, cadw a datblygu staff sy'n anabl.

**Pride Cymru**

- Roedd y Cyngor yn falch o fod yn rhan o Pride Cymru yn Awst 2016 ynghyd â sefydliadau eraill ledled De Cymru er mwyn ymgysylltu â'r gymuned Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol. Y nod oedd ymgysylltu â'r gymuned Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol er mwyn canfod pa faterion oedd yn bwysig iddynt ac o ganlyniad, gwella profiadau pobl leol Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol ledled De Cymru wrth iddynt gyrchu gwasanaethau cyhoeddus.

  Er mwyn dathlu'r digwyddiad, codwyd baner yr Enfys uwchlaw'r Ganolfan Ddinesig ar yr un diwrnod â Pride Cymru.

**Llyfrgell Gyhoeddus Merthyr Tudful**

- Bu Llyfrgell Gyhoeddus Merthyr Tudful yn ffodus iawn i sicrhau nawdd gan Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocost er mwyn creu gardd yn yr ardal y tu ôl i'r Llyfrgell. Y Llyfrgell oedd yr unig le yng Nghymru i sicrhau nawdd er mwyn creu darn o gelf a fyddai'n cynrychioli'r thema "Sut all bywyd fynd yn ei flaen." Dewisodd y Llyfrgell greu darluniau mosaic o'r pedwar tymor a chafwyd cymorth gan nifer o grwpiau cymunedol er mwyn gwneud hynny.

- Ar 27 Ionawr 2017, cynhaliodd Gwasanaeth Llyfrgell Merthyr Tudful, mewn partneriaeth ag Eglwys Dewi Sant, wasanaeth blynyddol Diwrnod Cofio'r Holocost ac roedd dros 200 o bobl yn bresennol, yn cynrychioli gwahanol grwpiau ym Merthyr Tudful gan gynnwys y Sgowtiaid, y Cadetiaid Awyr, y Lleng Prydeinig Brenhinol a llawer mwy. Wedi'r gwasanaeth, cerddodd y gynulleidfa i Ardd Goffa'r Holocost sydd wedi ei lleoli y tu ôl i'r Llyfrgell ac agorwyd hi'n swyddogol gan Yr Athro Syr Mansel Aylward.

  Yn y cyfnod yn arwain i fyny at Ddiwrnod Cofio'r Holocost, roedd y Llyfrgell yn ffodus iawn i wahodd rhywun a oroesodd yr Holocost i ddod i siarad am ei phrofiadau. Ganwyd Joanna Millan yn Bela Rosenthal; goroesodd gael ei hanfon i wersyll Terizin wedi i'w rhieni farw. Yn 1945, cafodd ei hanfon i Loegr. Mae'n adrodd hanes ei bywyd ag angerdd a thristwch. Daeth 60 o bobl ynghyd i wrando arni ac roedd ei hanes yn ddirdynnol.

  Hefyd, cyn Diwrnod Cofio'r Holocost, bu Gwasanaeth y Llyfrgell yn ymweld â nifer o ysgolion er mwyn hybu neges Diwrnod Cofio'r Holocost sef "Sut all bywyd fynd yn ei flaen."

Yn seiliedig ar y sylwadau uchod a'r datblygiad a wnaethpwyd yn Atodiad A a B, aseswyd y deilliannau fel rhai da – nifer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n arwyddocaol.

**Cynllun Bod yn Hyderus o ran Anabledd**

- Ym mis Awst 2016 gwnaeth y Cyngor drosglwyddo o'r Cynllun Anabledd 'Two Ticks' i'r cynllun newydd Cynllun Bod yn Hyderus o ran Anabledd yn dilyn y newid a gyflwynwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

  Mae'r dyfarniad yn ardystio fod y Cyngor yn Gyflogwr sy'n Ymroddedig i fod yn Hyderus o ran Anabledd sy'n arddangos ymrwymiad y Cyngor i recriwtio, cadw a datblygu staff anabl.

**Pride Cymru**

- Roedd y Cyngor yn falch o fod yn rhan o Pride Cymru ym mis Awst 2016 gyda sefydliadau eraill y sector cyhoeddus o bob rhan o Dde Cymru i ymgysylltu â'r gymuned LGBT. Y nod oedd ymgysylltu â'r gymuned LGBT i ganfod pa faterion sy'n bwysig iddyn nhw, ac o ganlyniad, gwella profiadau pobl LGBT ledled De Cymru wrth gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus.

  Er mwyn dathlu'r digwyddiad hwn, codwyd baner Enfys y tu allan i'r Ganolfan Ddinesig ar yr un diwrnod â Pride Cymru.

**Llyfrgell Gyhoeddus Merthyr Tudful**

- Roedd Llyfrgell Gyhoeddus Merthyr Tudful yn llwyddiannus o ran sicrhau arian oddi wrth Ymddiriedolaeth Diwrnod Coffau'r Holocaust i greu gardd y tu ôl i'r Llyfrgell. Y llyfrgell oedd yr unig fan yng Nghymru i sicrhau arian i greu darn o waith celf, a fyddai'n cynrychioli'r thema "Sut Gall Bywyd Fynd yn ei Flaen". Gwnaeth y Llyfrgell ddewis creu mosaig o'r pedwar tymor a chawsant eu helpu gan amrywiol grwpiau o'r gymuned i gyflawni hyn.

- Ar 27 Ionawr 2017, cynhaliodd Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus Merthyr Tudful, mewn partneriaeth ag Eglwys Dewi Sant, wasanaeth Diwrnod Cofio'r Holocost. Roedd hyd at 200 o bobl yn bresennol a chafwyd cynrychiolaeth o lawer o grwpiau gweithgar ym Merthyr Tudful gan gynnwys y Sgowtiaid, Cadetiaid Awyr, y Lleng Prydeinig Brenhinol a llawer mwy. Ar ôl y gwasanaeth, cerddodd y gynulleidfa i Ardd Goffau'r Holocost newydd sydd wedi ei lleoli y tu ôl i'r Llyfrgell, a agorwyd yn swyddogol gan yr Athro Syr Mansel Aylward.

  Wrth ddynesu at Ddiwrnod Cofio'r Holocost, roedd y Llyfrgell yn ffodus o gael goroeswr i ddod a siarad am ei phrofiadau. Ei henw oedd Joanna Millan a anwyd yn Bela Rosenthal. Goroesodd gael ei hanfon i wersyll Terizin ar ôl iddi golli ei rhieni. Ym 1945, cafodd ei hanfon i Loegr. Mae hi'n adrodd y stori anodd am ei bywyd ag angerdd a thristwch. Roedd 60 o bobl yn bresennol yn y digwyddiad ac fe effeithiodd ei thystiolaeth arnynt yn fawr iawn.

Hefyd, wrth ddynesu at Ddiwrnod Cofio’r Holocost, gwnaeth y Gwasanaeth Llyfrgelloedd ymweld â nifer o ysgolion i hyrwyddo neges Diwrnod Cofio’r Holocost, sef “Sut All Bywyd Fynd yn Ei Flaen.”

Yn seiliedig ar y sylwadau uchod a’r cynnydd a adroddir amdano yn Atodiad A a B, cafodd y deilliannau eu hasesu fel rhai da llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig ag angen gwelliant sylweddol.

## ADRAN 5

## ASESIAD EFFAITH

**Y Broses**

Mae dogfennaeth Asesu Effaith Ansawdd (AEA) yn parhau i fod yn atodiad gorfodol at adroddiadau am y Rhaglen Newid Rheolaeth, a'r Cabinet a'r Cyngor. Mae hyn yn arddangos sut mae Cynghorwyr, Awduron Adroddiadau a Rheolwyr Prosiect yn ystyried cydraddoldeb fel rhan o wneud penderfyniadau.

Mae rhan fawr o fewnblannu cydraddoldeb i mewn i gyflenwi gwasanaeth yn digwydd drwy Broses AEA y Cyngor. Mae'r broses hon yn cael ei strwythuro i ddynodi unrhyw anghydraddoldebau arfaethedig ac yn anelu at sicrhau fod unigolion a thimau yn meddwl yn ofalus ynghylch effaith debygol polisïau, gweithdrefnau, strategaethau, swyddogaethau a gwasanaethau, dynodi unrhyw anghenion heb eu bodloni, a darparu sail ar gyfer gweithredu i wella gwasanaethau ble y bo'n briodol.

Os os AEA cyflawn wedi cael ei gwblhau mae disgwyl i awduron adroddiadau hefyd i gynnwys y wybodaeth ganlynol yng nghorff yr adroddiad Cabinet/ Cyngor:

- Yr effeithiau cadarnhaol.
- Yr effeithiau negyddol.
- Cynigion cyfredol i fynd i'r afael â'r materion.

Ni chaiff unrhyw Adroddiad Cabinet neu Gyngor ei ganiatáu i gael ei gyflwyno heb fod atodiad AEA ganddo.

Cafodd ffurflen a chanllaw AEA eu hadolygu mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a'u lledaenu ar gyfer eu gweithredu ym mis Ebrill 2015. Mae'r ffurflen yn haws ei chwblhau, yn fwy ffocysedig ac yn cael ei chefnogi gan ganllaw hawdd gam wrth gam.

Mae ffurflenni a chanllaw AEA ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor i'r staff eu defnyddio.

**Monitro**

Mae'r AEA yn gofyn bod awduron adroddiadau yn:

- Dogfennu dyddiad adolygiad nesaf yr AEA; ac
- Os nad yw adolygiad yn ofynnol ac esbonio pam.

Mae'r Rheolwr Risg a Chydraddoldebau Corfforaethol yn mynychu'r Grŵp Llywio Newid Rheolaeth i alluogi materion sy'n berthnasol i Gydraddoldebau, Risg a'r Gymraeg sydd i'w dynodi ac sydd i fynd i'r afael â nhw. Mae'r rhain hefyd yn eitemau sefydlog ar yr agenda.

**Cyhoeddi Canlyniadau**

Mae'r holl ffurflenni AEA wedi eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ynghyd ag Adroddiadau'r Cabinet a'r Cyngor.

## ADRAN 6

## YMWYBYDDIAETH CYFLOGAI

Mae gwybodaeth ar gael am Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ar Wefan a Mewnrwyd y Cyngor.

Mae'r Cyngor wedi dynodi'r Nodau Cydraddoldeb canlynol fel rhan o'i Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016 2020, a fydd yn cefnogi'r Cyngor wrth barhau i godi ymwybyddiaeth am Gydraddoldebau:

- Cefnogi a hwyluso hyfforddiant cydraddoldebau a chyfleoedd dysgu fel bod staff ar bob lefel, Cynghorwyr a phartneriaid yn cydnabod ac yn ymgorffori cydraddoldebau fel rhan o'u rôl.

Gellir dod o hyd i gynnydd am y Nod Cydraddoldeb hwn yn Atodiad A.

**Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaus**

Mae Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn elfen allweddol o Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor ar gyfer Gwerthuso Perfformiad a chyfarfodydd Un i Un. Mae hyn yn galluogi anghenion hyfforddi cyflogai i gael eu dynodi ac yn fodd o fynd i'r afael â nhw.

## ADRAN 7

## DATA'R GWEITHLU

Mae'r Cyngor wedi dynodi'r Nod Cydraddoldeb canlynol fel rhan o'i Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016 2020, a fydd yn cefnogi'r Cyngor wrth barhau i wella ei ddealltwriaeth a phroffil ei gyflogeion sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

- Datblygu systemau monitro gwydn i gasglu, coladu, monitro a chyhoeddi data cydraddoldebau am ein cyflogeion a'n cwsmeriaid, a fydd yn helpu'r Cyngor i sicrhau ei fod yn darparu gwasanaethau teg a hygyrch.

Gellir dod o hyd i gynnydd ar y Nod Cydraddoldeb hwn yn Atodiad A.

Mae data'r gweithlu ar gyfer y Cyngor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2017 yn atodedig fel Atodiad C.

## ADRAN 8

## CAFFAEL

Mae’r Cyngor yn ei ystyried yn hanfodol fod sefydliadau sydd am ddarparu nwyddau neu wasanaethau ar ei ran yn gallu arddangos fod pob cam rhesymol ac ymarferol wedi ei gymryd i alluogi mynediad cyfartal a thriniaeth gyfartal mewn cyflogaeth, cyflenwi gwasanaeth a hyfforddiant i bawb.

Mae’r Cyngor yn defnyddio proses cyn gymhwyster safonol Llywodraeth Cymru sef Supplier Qualification Information Database (SQuID) ond mae wedi ychwanegu ei gydraddoldebau penodol ei hun ato. Mae templed Gwahoddiad i Dendro safonol y Cyngor yn cynnwys datganiad cydraddoldebau penodol gan gynnwys cymalau contract sy’n berthnasol i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Mesir y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae cymalau cydraddoldebau a’r Gymraeg sy’n berthnasol i delerau ac amodau ar gyfer contractau yn cael eu hychwanegu yn ôl y gofyn.

Mae’r Cyngor yn tanategu egwyddorion Datganiad Polisi Caffael Cymraeg 2015 (DPCC) a’r deg prif thema ynddo drwy strategaeth gaffael ffit i bwrpas sy’n darparu cyfeiriad a chydlyniant strategol i gydsynio â blaenoriaethau corfforaethol a’r DPCC. Mae’r DPCC yn cynnwys themâu fel Effeithiau Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol, Budd daliadau Cymunedol a chystadleuaeth agored a hygyrch.

Mae elfennau Cydraddoldeb a’r Gymraeg o’r Broses Gaffael mewn perthynas â Thendro a Chais am Ddogfennaeth Dyfynbris wedi cael eu hadolygu yn unol â Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol)(Cymru) 2011.

Mae’r dogfennau hyn yn cefnogi’r Cyngor o ran sicrhau fod yr holl gyflenwyr trydydd parti yn arddangos cydymffurfiaeth â’r gofynion hyn, ble y bo’n berthnasol i natur a math o nwyddau a gwasanaethau sy’n cael eu darparu ar ei ran.

## ADRAN 9

## CYFAMOD CYMUNEDOL Y LLUOEDD ARFOG

Gwnaeth y Cyngor arwyddo Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog ym mis Mai 2013. Mae addewid y Cyngor i Gyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog yn cydnabod y parch deuol rhwng y Cyngor, ei asiantaethau partner, ei gymunedau a phersonél ein Lluoedd Arfog (yn gwasanaethu ac wedi ymddeol) a'u teuluoedd. Cafodd y Cynghorydd Andrew Barry ei benodi fel Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog yn 2017.

Mae'r Cyngor yn cefnogi Grŵp Cefnogi'r Lluoedd Arfog, sy'n cael ei redeg gan aelodau lleol o'r Lleng Prydeinig Brenhinol (Canghennau Dowlais a'r Dref). Mae Aelodaeth hefyd yn cynnwys cyn swyddogion y llynges a'r Gwarchodlu Cymreig.

Mae bwrdd rhanbarthol wedi cael ei sefydlu rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Panel Cyfamod Cymunedol Cwm Taf (y Cyfamod). Mae'r Panel yn cwrdd bob chwarter, a'i brif bwrpas yw trafod ac asesu unrhyw geisiadau am ariannu Cyfamod sy'n cael ei dderbyn.

Mae'r canlynol yn aelodau o'r Cyfamod:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful (Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog, swyddogion arweiniol a chynrychiolwyr newydd).
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.
- Y Lleng Brydeinig.
- SSAFA.
- Heddlu De Cymru.
- Cymdeithasau Tai.
- Brigâd Milwyr Traed 160 a Phencadlys Cymru (Ymgysylltiad).
- Interlink a Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau (Canolfan Byd Gwaith).
- Y Llynges, y Fyddin a Ffederasiynau Teuluol yr RAF.
- 3 Cymru Brenhinol.
- Cartrefi Alabare i Gyn filwyr.
- Darparwyr Addysg Bellach ac Addysg Uwch.
- Y Gwasanaeth Prawf.
- Busnes – aelod o'r Grŵp Ymgysylltiad Cyflogwr Rhanbarthol

Cafodd Canllaw i Wasanaethau ar gyfer Personél y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd ei gyhoeddi a'i ddosbarthu'n eang ledled y Fwrdeistref Sirol. Mae'r llyfryn yn cynnwys cysylltiad ar gyfer Iechyd, Tai, Hamdden, Addysg ac yn y blaen.

Nofio am ddim i'r Lluoedd Arfog yw'r fenter ddiweddaraf i'w lansio gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i Becyn Cefnogaeth i Gymuned y Lluoedd Arfog. Mae Canolfan Hamdden Merthyr Tudful a Chanolfan Gymunedol Aber fan yn cynnig nofio am ddim bellach yn ystod amseroedd nofio cyhoeddus ar gyfer personél y Lluoedd Arfog a chyn filwyr sy'n preswylio yng Nghymru.

## ADRAN 10

## YR IAITH GYMRAEG

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi cymryd lle Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac mae'n gosod rheidrwydd ar gyrff y sector cyhoeddus i gydsynio â Safonau'r Gymraeg. Yn y bôn, mae'r un gofyniad gan y Mesur â beth sydd gan y Ddeddf sef **trin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.**

Mae'r Gymraeg yn elfen allweddol ar agenda Cydraddoldeb y Cyngor. Mae'r Cyngor yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg drwy arsylwi ar yr Egwyddorion Arweiniol canlynol:

- Mae hawl gan unigolion i ymwneud â ni yn y Gymraeg.
- Rhaid i'r Gymraeg gael ei gosod yn gyntaf i'w darllen (i'r chwith o'r Saesneg neu uwch ben Saesneg).
- Parchu hawliau ieithyddol y staff.
- Mae ansawdd y gwasanaeth ac agwedd gadarnhaol yn bwysig.
- Rhaid i ni gynnig gwasanaethau yn y Gymraeg er mwyn rhoi dewis o iaith.

**<u>Gweledigaeth Yr iaith Gymraeg ar gyfer Merthyr Tudful</u>**

Bydd yr Egwyddorion Arweiniol hyn yn cefnogi'r Cyngor o ran cyflenwi Gweledigaeth yr Iaith Gymraeg ganlynol ar gyfer Merthyr Tudful:

> "Lle sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ac yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb.
>
> Caiff hyn ei gyflawni drwy alluogi ac annog:
>
> - Y ddarpariaeth eang o addysg Gymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol.
> - Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, yn y cartref ac wrth chwarae.
> - Y cysyniad fod ieithoedd yn sgil bywyd, sy'n cyfoethogi bywydau'r rheini sy'n eu defnyddio.
> - Mae pobl ledled y Fwrdeistref Sirol yn teimlo balchder yn eu hiaith a hyder wrth ei defnyddio.
>
> Mae'r delfrydau hyn yn fwriadol ymestynnol  ni fyddant yn cael eu cyflawni dros nos, ond dros yr hir dymor, y mae'n weledigaeth gennym i annog newid diwylliannol yn y modd y mae'r ddwy iaith yng Nghymru'n cael eu canfod yn y Fwrdeistref Sirol hon. Rydym am wneud gwahaniaeth."

Bydd y Cyngor yn arsylwi'r Egwyddorion Arweiniol hyn ac yn gweithio tuag at gyflawni'r Weledigaeth hon drwy ein rôl fel arweinydd cymunedol, darparwr gwasanaeth, comisiynydd a chyflogwr yn gweithio mewn partneriaeth drwy a gyda'n rhanddeiliaid yn y Fwrdeistref Sirol.

## ADRAN 11

## GWYBODAETH GYSWLLT

**Sut i gysylltu â ni**

Os hoffech gopi o'r Adroddiad Blynyddol hwn mewn unrhyw fformat arall neu wedi ei gyfieithu i iaith arall, cysylltwch:

**Mr Kerry O'Donovan**
Rheolwr Risg Corfforaethol a Chydraddoldeb
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Canolfan Ddinesig
Stryd y Castell
Merthyr Tudful
CF47 8AN
Ffôn: (01685) 725298
E bost: equalities@merthyr.gov.uk
Gwefan y Cyngor: www.merthyr.gov.uk

**ATODIAD A**

**CYNNYDD YN ERBYN CYFLENWI**
**NODAU CYDRADDOLDEB AR GYFER 2016=2020**

**DIWEDDARIAD AR GYFER 2016=2017**

**Gweledigaeth Cydraddoldebau i Ferthyr Tudful**

***"Lle ble y mae amrywiaeth yn cael ei gwerthfawrogi a'i pharchu a ble y gall pawb gyfranogi, ffynnu a chael y cyfle i gyflawni ei botensial yn rhydd o wahaniaethu a rhagfarn."***

Bydd y Cyngor yn gweithio tuag at gyflawni'r Weledigaeth hon drwy ein rôl fel arweinydd cymunedol, darparwr gwasanaethau, comisiynydd a chyflogwr a byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i leihau anghydraddoldebau a gwella llesiant y Fwrdeistref Sirol.

Caiff y Weledigaeth hon ei chyflenwi drwy'r Nodau Cydraddoldeb canlynol ar gyfer 2016 2020:

| Themâu | Nodau cydraddoldeb |
|---|---|
| **Ymgysylltiad Cymunedol** | **Nod Cydraddoldeb 1**<br>Gosod llais dinasyddion wrth galon gwneud penderfyniadau lleol fel bod eu cyfraniad yn cael ei ddeall, ei gydnabod a'i ddefnyddio i helpu'r Cyngor ddeall ac ymateb i anghenion ei gymunedau. |
| **Codi Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb** | **Nod Cydraddoldeb 2**<br>Cefnogi a hwyluso hyfforddiant cydraddoldebau a chyfleoedd dysgu fel bod staff ar bob lefel, Cynghorwyr a phartneriaid yn cydnabod ac yn ymgorffori cydraddoldebau fel rhan o'u rôl.. |
| **Deall ein Staff a'n Cymunedau** | **Nod Cydraddoldeb 3**<br>Datblygu systemau monitro gwydn i gasglu, coladu, monitro a chyhoeddi data cydraddoldebau am ein cyflogeion a'n cwsmeriaid, a fydd yn helpu'r Cyngor i sicrhau ei fod yn darparu gwasanaethau teg a hygyrch. |
| **Rhywedd/ Cyflog Cyfartal** | **Nod Cydraddoldeb 4**<br>Sicrhau tegwch o ran cyflogau ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. |

**NOD CYDRADDOLDEB 1**

**THEMA: YMGYSYLLTIAD CYMUNEDOL**

**Mesurau:**

1. Mae preswylwyr o'r farn fod yr Awdurdod Lleol yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel (Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru):

| Ymateb | 2012/13 (Maint y sampl: 14,400) | 2013/14 (Maint y sampl: 14,600) | 2014/15 (Maint y sampl: 14,100) | 2015/16 | 2016/17 (Maint y sampl: 10,300) |
|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno | 46% | 53% | 43% | Ni chafwyd Arolwg Cenedlaethol Cymru yn 2015 16 | 38% |
| Ddim yn cytuno nac anghytuno | 23% | 18% | 20% | | 28% |
| Anghytuno | 30% | 29% | 37% | | 34% |

2. Mae preswylwyr o'r farn bod yr Awdurdod Lleol yn dda o ran rhoi gwybod i bobl sut y mae'n perfformio (Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru):

| Ymateb | 2012/13 (Maint y sampl: 14,300) | 2013/14 (Maint y sampl: 14,400) | 2014/15 (Maint y sampl: 13,800) | 2015/16 | 2016/17 (Maint y sampl: 9,950) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno** | 37% | 36% | 37% | Ni chafwyd Arolwg Cenedlaethol Cymru yn 2015 16 | 34% |
| **Ddim yn cytuno nac anghytuno** | 21% | 16% | 15% | | 21% |
| **Anghytuno** | 42% | 48% | 48% | | 45% |

3. Mae preswylwyr o'r farn eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar yr ardal leol (Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru):

| Ymateb | 2012/13 (Maint y sampl: | 2013/14 (Maint y sampl: | 2014/15 (Maint y sampl: | 2015/16 | 2016/17 (Maint y sampl: |
|---|---|---|---|---|---|

| | 14,400) | 14,500) | 13,900) | | 10,050) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno** | 23% | 25% | 19% | Ni chafwyd Arolwg Cenedlaethol Cymru yn 2015 16 | 23% |
| **Ddim yn cytuno nac anghytuno** | 24% | 19% | 21% | | 23% |
| **Anghytuno** | 53% | 57% | 60% | | 54% |

| Gweithrediadau | Cynnydd |
|---|---|
| **<u>Gweithredu1:</u>**<br>Cyflenwi Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgynghori'r Cyngor. | A Cafodd Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgynghori ei ddatblygu fel Thema Gwella Ansawdd. Mae Cynllun Gweithredu Rheoli Enw Da wedi cael ei ddatblygu hefyd. Ar hyn o bryd mae'r Strategaeth yn cael ei adolygu i gynnwys newidiadau i Weledigaeth y Cyngor.<br><br>Bydd y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgynghori yn cyflenwi'r canlynol:<br><br>1. Darparu arweiniad clir, bod yn eglur ynghylch yr hyn mae'r Cyngor yn sefyll drosto a gwneud yn siŵr ei fod yn cael ei ddeall gan yr holl sefydliad.<br>2. Parhau i hyrwyddo brand y Cyngor sy'n darparu ymwybyddiaeth glir o bwrpas ac yn ymgorffori'r gwerthoedd.<br>3. Adeiladu ar ein hawydd i gyfathrebu ac ymgysylltu'n strategol fel bod gennym y sgiliau cywir i wella'r enw da. |
| **<u>Gweithredu2:</u>**<br>Cefnogi cyflenwi Strategaeth Ymgysylltiad Cyhoeddus Cwm Taf. | Mae Bwrdd Partneriaeth Strategol Cwm Taf, gyda'r Trydydd Sector, wedi derbyn y dasg o ddatblygu ymagweddiad mwy arloesol a phroactif. Mae angen i'r darn hwn o waith fod yn gwbl gydweithredol heb gael ei yrru gan unrhyw fecanwaith asiant sengl ac y mae felly, yn cael ei gyflawni drwy Grŵp Ymgysylltiad Cyhoeddus Cwm Taf.<br><br>Roedd cynllun ymgysylltiad ac ymgynghoriad mewn lle yn ystod datblygu Cynllun Llesiant Cwm Taf a fydd yn cael ei gyhoeddi ym |

| Gweithrediadau | Cynnydd |
|---|---|
| | mis Mai 2018.<br><br>Cafodd Strategaeth Ymgysylltiad ac Ymgynghoriad Drafft Bwrdd Gwasanaethau Cwm Taf ei ddatblygu ond mae angen ei ail ffocysu ynghyd â gwaith Grŵp Ymgysylltiad Cyhoeddus Cwm Taf, a Rhwydwaith Ymgysylltiad Cyhoeddus i gefnogi cyflenwi Cynllun Llesiant Cwm Taf.<br><br>Wrth fodloni egwyddor datblygiad cynaliadwy (5 ffordd o weithio) bydd y Bwrdd yn parhau i gynnwys cymunedau wrth lywio, siapio a gweithredu cynlluniau drwy sgwrs gyfredol. Bydd y Bwrdd yn cynnwys pobl â phrofiadau y maen nhw wedi eu byw er mwyn llywio cyflenwi cynlluniau wrth symud ymlaen. |
| **<u>Gweithredu3:</u>**<br>Gweithio mewn partneriaeth â phortffolio MAGNET canlynol o brosiectau i ddarparu cyfle i aelodau o gymunedau ymylol i godi eu llais o ran dylanwadu ar brosesau polisi'r Cyngor, cynllunio a chyflenwi:<br><br>1. **Gweledol –** Dod â'r bobl ganlynol at ei gilydd: Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT) i ddarparu cefnogaeth a hyrwyddo eu llai oddi fewn i Ferthyr Tudful.<br>2. **Canolbwynt** – Ymgysylltu â Gweithwyr Mudol, gan hwyluso cynhwysiant a chydlynu, gwella ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn y gymuned ehangach.<br>3. **Pontydd –** Codi hyder a sgiliau gyda'r gymuned Sipsi / Teithio a chreu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltiad effeithiol â gwasanaethau lleol.<br>4. **Un Llais –** Eiriolaeth ac ymrymuso i Bobl Anabl i gytuno ar weithredu ar y cyd ac ymgysylltiad â darparwyr gwasanaeth.<br>5. **Perthyn –** Prosiect aml genhedlaeth rhwng pobl hŷn ac iau sy'n byw mewn tai cymdeithasol, canolbwyntio | Mae'r Cyngor wedi gweithio mewn partneriaeth â MAGNET ers ei lansio yn 2013. Mae'r prosiectau sy'n cyfuno i greu MAGNET wedi gweithio gyda thros 3,000 o breswylwyr ym Merthyr Tudful, gan eu galluogi nhw i gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus, derbyn cefnogaeth bwrpasol a helpu i oroesi problemau maen nhw wedi dod ar eu traws yn eu bywydau a'u cymunedau.<br><br>Mae prosiectau MAGNET hefyd wedi helpu unigolion a grwpiau i gael gwrandawid, gan helpu gwasanaethau i fod yn fwy ymatebol i ddiwallu angen a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cydraddoldeb yn ein cymunedau.<br><br>Mae'r Cyngor wedi elwa'n sylweddol o ran gweithio mewn partneriaeth â MAGNET, enghraifft o hynny yw'r saith prosiect sef partner allweddol o ran datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ar gyfer 2016 2020.<br><br>Mae'r Cyngor yn parhau i ymgysylltu a gweithio â Phrosiect MAGNET. Enghraifft o hynny yw pan fo hyfforddiant cydraddoldeb yn cael ei ddarparu i Uwch Dim Arwain y Cyngor |

| Gweithrediadau | Cynnydd |
|---|---|
| ar bolisïau tai yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Cyflenwir yng Nghaedraw, Gurnos a Threlewis.<br>6. **POSSIB –** Prosiect celfyddydol dwyieithog i feithrin perthynas dynion ifanc mewn gwaith, rhieni a phlant mewn meysydd yn ymwneud ag iechyd, llesiant, cyflogaeth ac addysg. Cyflenwir yng Nghlwstwr Gogleddol Cymunedau yn Gyntaf.<br>7. **Llawn Addewid –** Prosiect cyfryngol ieuenctid ble mae gohebwyr ifanc yn cyfleu negeseuon cadarnhaol am bobl ifanc a Merthyr Tudful a chyfathrebu â darparwyr gwasanaeth a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. | ac i Gynghorwyr gan Brosiect MAGNET. Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am yr hyfforddi hwn isod o dan Nod Cydraddoldeb ar gyfer Codi Ymwybyddiaeth Cydraddoldeb.<br><br>Enghreifftiau o rai o'r llwyddiannau eraill o ran gweithio mewn partneriaeth â MAGNET yw:<br><br>• Y Maer a'n Haelod Seneddol lleol yn codi'r faner Enfys y tu allan i'r Ganolfan Ddinesig dros y tair blynedd diwethaf yn ysgol mis Hanes LGBT fel rhan o ymroddiad y Cyngor i gefnogi ac ymgysylltu â'r gymuned LGBT ym Merthyr Tudful.<br>• Sicrhau fod pobl anabl yn gallu dylanwadu ar ddyluniad terfynol mynediad i'r orsaf reilffordd ym Merthyr Tudful a chyflwyno lonydd cerdded glas fel rhan o welliannau Maes Parcio'r Castell, gan wneud mordwyo yn haws i bawb, nid yn unig y rheini sy'n anabl.<br>• Caiff cyfarfodydd rheolaidd eu cynnal â Swyddog Prosiect Un Llais i drafod cynnydd ar y prosiect anabl ac unrhyw faterion perthnasol eraill.<br><br>Y mae hefyd yn bwysig amlygu gwaith caled ac ymroddiad cyfredol Pwyllgor ac Ymddiriedolwyr y Pentref Byd eang wrth gydlynu llwyddiant cyfredol Gŵyl y Pentref Byd eang ym Merthyr Tudful. Mae'r Ŵyl yn rhoi cyfle i aelodau proffesiynol a'r gymuned i berfformio ac yn galluogi sefydliadau i gael llwyfan i hyrwyddo materion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Y mae'n dathlu amrywiaeth ond hefyd yn cydnabod tebygolrwydd ac yn cynnig y cyfle i ehangu gorwelion diwylliannol mewn modd creadigol sy'n llawn hwyl.<br><br>Mae'r Cyngor yn parhau i weithio gyda MAGNET mewn nifer o wahanol ffyrdd, er enghraifft ar ddatblygu taflenni ffeithiau ar bob un o'r nodweddion a ddiogelir. Gellir dod o hyd i wybodaeth |

| Gweithrediadau | Cynnydd |
|---|---|
| | bellach ar y taflenni ffeithiau isod o dan Nod Cydraddoldeb ar gyfer Codi Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb. |
| **<u>Gweithredu4:</u>**<br>Gweithio tuag at gyflawni Safon Aur Anabledd Chwaraeon Cymru mewn chwaraeon. | **<u>Rhuban Insport ac Insport Efydd</u>**<br><br>Cafodd lefelau Rhuban Insport ac insport Efydd eu cyflawni yn 2014, gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ymhlith un o'r ddau Gyngor i gyflawni lefel Efydd yng Nghymru.<br><br>**<u>insport Arian</u>**<br><br>Ym mis Chwefror 2017, cyflwynodd y Cyngor ei gyflwyniad insport Arian i Banel Datblygu insport. Gwnaeth y Prif Weithredwr, Swyddog Datblygu Chwaraeon i'r Anabl a'r Rheolwr Cydraddoldebau arwain y cyflwyniad ac roedd y panel yn unfrydol gytûn ynghylch dyfarnu insport Arian, gan wneud Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn un o ddim ond pump o Gynghorau yng Nghymru i gyrraedd lefel arian.<br><br>Cafwyd adborth cadarnhaol iawn oddi wrth Banel Datblygu insport, ac mae crynodeb ohono i'w weld isod:<br><br>• Hoffai'r panel a Chwaraeon Anabl Cymru longyfarch a diolch i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, a'r tîm cyflwyno, am eu hymagwedd gadarn a gwydn tuag at safon Arian Datblygu insport.<br><br>• Gan ddefnyddio angerdd ac ymroddiad arweinwyr strategol insport, a chysylltu hyn â monitro parhaus a chyson a'r broses adolygu, ceir bellach ddechreuadau clir o ran ymagwedd integredig at gynhwysiant ledled y Fwrdeistref Leol.<br><br>• Gwelwyd dilysrwydd, arweiniad ac ymroddiad Swyddog |

| Gweithrediadau | Cynnydd |
|---|---|
| | Prif Weithredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful drwy gydol y broses, ac â'r panel, gwelodd y panel hyn fel un o'r catalyddion sylweddol tuag at lwyddiant mor belled. Bydd datblygiad hyrwyddwyr ac eiriolwyr pellach ar gyfer cynhwysiant ar draws y sectorau Addysg, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar lefel uwch arweiniol gyfatebol, yn hanfodol ar gyfer camau diweddarach insport, a chafodd y panel eu sicrhau fod yr ymroddiad i sicrhau'r lefel hwn o brynu i mewn wedi cael cydnabyddiaeth eisoes, yn ogystal â chael ei symbylu. Mae brwdfrydedd ac ymgysylltiad staff CBS Merthyr Tudful o ran datblygu a phrofi elfennau eraill o brosiect insport yn cael ei werthfawrogi hefyd a'i gydnabod fel adlewyrchiad o'r ymroddiad ehangach at gynhwysiant ac amrywiaeth.<br><br>• Roedd Panel Datblygu insport yn falch iawn o glywed fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn mabwysiadu athroniaeth ble y caiff cynhwysiant ei siapio gan yr union bobl a fydd yn cael eu dylanwadu a'u heffeithio gan y rhaglenni a'r cyflenwi. Bydd angen i'r ymagwedd hon aros wrth galon yr holl feddylfryd wrth symud ymlaen, gydag eglurder o anghenion yr holl garfannau o'r boblogaeth yn bodoli fel man cychwyn ar gyfer safon Aur Datblygu insport.<br><br>• Yn gyffredinol, roedd y cyflwyniad yn adlewyrchiad rhagorol a gonest o'r cyfeiriad strategol sy'n cael ei fabwysiadu, a'r dehongliad ymarferol o'r ymagwedd hon. Gwnaeth y wybodaeth a ddarparwyd i'r Swyddog Achos Datblygu insport, drwy gyfrwng y porthol, ochr yn ochr â'r cyflwyniad brwdfrydig a chlir, adael y panel heb unrhyw amheuon na ddylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful gael ei ddyfarnu â safon Arian Datblygu insport. |

| Gweithrediadau | Cynnydd |
| --- | --- |
| | • Roedd hwn yn gyflwyniad eithriadol o'r safon Arian Datblygu insport, roedd yna gyfoeth wedi ei ddarparu gan y cynnwys o'r hyn a wnewch, a sut yr ydych yn ei wneud yn lleol oddi fewn i'r holl astudiaethau achos, a chafodd angerdd, ymroddiad ac ymagwedd dryloyw tuag at gynhwysiant ei arddangos yn gyson yn holl elfennau'r cyflwyniad y tîm cyflwyno. Dangosodd CBS Merthyr Tudful ddealltwriaeth glir ac aeddfed o ble maen nhw'n sefyll gyda chynhwysiant, ac yn gyffredinol, y deilliannau disgwyliedig i'r newidiadau mewn arferion gweithio ar gyfer ardaloedd a gaiff eu cyflenwi. Mae ymgysylltiad ac ymgynghoriad â rhanddeiliaid wedi bod yn eangfrydig a chreadigol, ac wedi ceisio cynnwys sefydliadau ac unigolion a allai fod wedi peidio â chymryd rhan yn flaenorol neu yn draddodiadol. Canlyniad hyn yw galluogi mwy o hunanymwybyddiaeth, mireinio darpariaeth, ac ymbweru partneriaid eraill i gyflenwi yn gyson oddi fewn i'r un negeseua.<br><br>• Llongyfarchiadau a diolch ar ran y panel am drosolwg ysbrydoledig, diddorol a thrylwyr o'r ddarpariaeth, meddwl, strategaeth ac ymarfer.<br><br>Dynodwyd y canlynol fel meysydd allweddol o arfer orau:<br><br>• Cydnabyddiaeth o'r daith o welliant a dysgu cyfredol.<br>• Ymroddiad at gynaliadwyedd drwy bartneriaethau a chydweithrediad.<br>• Gweithredu pwyllgorau craffu mewnol.<br><br>Cafwyd dathliad o gyflawniad insport Arian yn lansiad Stryd Fawr Merthyr Tudful yn dyfod yn 'Awtistig Gyfeillgar' ar 15 Medi 2017. |

| Gweithrediadau | Cynnydd |
|---|---|
| | **<u>insport Aur</u>**<br><br>Mae Tîm Arweiniol Corfforaethol y Cyngor wedi derbyn cyflwyniad am ymagwedd y Cyngor i insport Aur. Mae'r Tîm Arweiniol Corfforaethol yn cymeradwyo'n llwyr ymagwedd at insport Aur y Cyngor ac yn ymroddedig i gefnogi datblygiad tystiolaeth insport gyda 2020 fel dyddiad cyflwyno a gynllunnir.<br><br>Y bwriad bellach yw mynychu panel insport ym mis Chwefror 2018, i amlinellu cynlluniau ar gyfer insport Aur y Cyngor ac i Banel Chwaraeon Anabl Cymru gymeradwyo'r ymagwedd. |
| **<u>Gweithredu5:</u>**<br>Adolygu gweithgareddau Cymunedau yn Gyntaf a sefydlu a gweithredu Cynllun Cyfranogiad Cymunedol newydd. | Roedd angen i'r Cyngor ddynodi a chytuno ar drefniadau cymynrodd Cymunedau yn Gyntaf, yn dilyn y cyhoeddiad fod y rhaglen yn dod i ben yn raddol. Roedd hyn yn cynnwys penderfynu ar raglenni cyflenwi i'w cadw neu raglenni cyflenwi newydd i'w cefnogi yn unol ag anghenion y gymuned a'r Asesiad Llesiant.<br><br>Cafwyd ymgynghoriad helaeth â'r partneriaid a'r gymuned i ddynodi trefniadau'r gymynrodd.<br>Cafodd y blaenoriaethau canlynol ar gyfer cefnogaeth strategol i'r gymuned a chyflenwi gwasanaeth llinell flaen eu dynodi:<br><br>• Buddsoddi mewn cydlynu Parth Cymunedol i wneud peilot o'r ymagwedd hon yn ardal Gurnos.<br>• Comisiynu darpariaeth chware ac ieuenctid cyfredol yn y Gurnos, Dowlais a Gellideg.<br>• Comisiynu parhad rhaglen codi ymwybyddiaeth o Drais Domestig mewn ysgolion ledled y Fwrdeistref Sirol.<br>• Buddsoddi yn yr ymagwedd datblygiad iaith cynnar, gan integreiddio blaenoriaeth clwstwr y de i mewn i fodel sydd wedi ei sefydlu eisoes. |

**NOD CYDRADDOLDEB 2**

**THEMA: CODI YMWYBYDDIAETH AM GYDRADDOLDEB**

| Mesurau | 2016/17 |
| --- | --- |
| 1. Y nifer o staff, Cynghorwyr a sefydliadau partner sydd wedi derbyn hyfforddiant mewn Cydraddoldebau (Ffynhonnell: Data'r Cyngor). | Hyfforddiant Cydraddoldeb drwy Brosiect MAGNET (3 sesiwn):<br>• 14 Cynghorydd<br>• 32 staff (Uwch Dim Arwain)<br>Hyfforddiant Cydraddoldeb drwy gyrsiau sy'n seiliedig ar Chwaraeon:<br>• 15 staff o 11 ysgol yn mynychu Active Kids for All (Hyfforddiant Cynhwysiant Anabledd).<br>• 20 myfyriwr o Goleg Merthyr yn mynychu Active Kids for All (Hyfforddiant Cynhwysiant Anabledd).<br>• Mynychodd 18 cyfranogwr o amrywiaeth eang o bartneriaid Hyfforddiant Cynhwysiant Anabledd.<br>• 7 staff y Cyngor, Arweinydd Gweledol o MAGNET a 2 Swyddog o'r Urdd yn mynychu Hyfforddiant Ymwybyddiaeth LGBY Chwaraeon Cymru.<br><br>Hyfforddiant Atal:<br>• 749 staff hyd yma wedi mynychu hyfforddiant Atal.<br>• Cafodd 60 o staff ychwanegol hefyd fynediad at gwrs hyfforddi ar lein.<br><br>Cwrs Trais yn erbyn Menywod, Cam drin Domestig a Thrais Rhywiol:<br>• Mae Staff a Chynghorwyr wedi cwblhau Cwrs Trais yn erbyn Menywod, Cam drin Domestig a Thrais Rhywiol. |
| 2. Y nifer o wahanol gyfleoedd hyfforddi a ddarperir (Ffynhonnell: Data'r Cyngor). . | Yn seiliedig ar Fesur Rhif 1 uchod, cafodd 10 o gyfleoedd hyfforddi gwahanol eu darparu. |
| 3. Y nifer o ddigwyddiadau disgyblaethol, chwythu'r chwiban a chwynion sy'n berthnasol i faterion cydraddoldeb (Ffynhonnell: Data'r Cyngor). | 1 Cwyno am Gam drin Hiliol / Aflonyddu Rhywiol. |

| Gweithrediadau | Cynnydd |
|---|---|
| **Gweithredu1:**<br>Lledaenu Modiwl E ddysgu Cydraddoldebau i staff a Chynghorwyr. | Cafodd Modiwl e Ddysgu Cydraddoldebau ei adolygu cyn ei ledaenu allan a barnwyd na fyddai'r cynnwys yn diwallu anghenion hyfforddi staff a Chynghorwyr o ran codi ymwybyddiaeth am Gydraddoldeb.<br><br>I fynd i'r afael â'r bwlch hyfforddi hwn, gan weithio â Chydlynydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol Cwm Taf ac mewn ymgynghoriad â Phrosiect Llais Cymunedol MAGNET, mae Adnodd Dysgu Cydraddoldeb yn cael ei ddatblygu i staff a Chynghorwyr ar ffurf taflenni ffeithiau ar gyfer pob un o'r naw nodwedd a ddiogelir.<br><br>Gellir gweld gwybodaeth bellach ar y daflen ffeithiau o dan Gweithredu 4 isod. |
| **Gweithredu2:**<br>Gweithio mewn partneriaeth â phortffolio MAGNET i gyflenwi rhaglen hyfforddi i staff a Chynghorwyr yn seiliedig ar y prosiectau canlynol:<br>• Canolbwynt – dinasyddion newydd gyrraedd<br>• Gweledol – LGBT<br>• Un Llais – pobl anabl<br>• Pontydd – Sipsi / Teithwyr | Cafodd hyfforddiant cydraddoldeb ei ddarparu i Uwch Dîm Arwain y Cyngor a Chynghorwyr gan Brosiect MAGNET.<br><br>Roedd yr hyfforddiant cydraddoldeb yn canolbwyntio ar ddarparu mewnwelediad, gwybodaeth a dealltwriaeth am y gwahanol gymunedau ym Merthyr Tudful i'r Cynghorwyr a Swyddogion.<br><br>Cafodd hyn ei gyflenwi mewn modd creadigol a dychmygus ond yn fwyaf pwysig rhoddodd fewnwelediad i Gynghorwyr a Swyddogion na fyddent fel arall wedi ei gael gan roi enghreifftiau penodol o brofiadau pobl o wasanaethau. |
| **Gweithredu3:**<br>Gweithio â Heini Merthyr a'i bartneriaid yn lleol ac yn genedlaethol i sefydlu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd i staff, Cynghorwyr a sefydliadau partner. | Mae'r Hyfforddiant Cydraddoldeb canlynol wedi ei ddarparu drwy gyrsiau'n seiliedig ar chwaraeon:<br><br>• 15 staff o 11 ysgol yn mynychu Active Kids for All (Hyfforddiant Cynhwysiant Anabledd).<br>• 20 myfyriwr o Goleg Merthyr yn mynychu Active Kids for All (Hyfforddiant Cynhwysiant Anabledd). |

| Gweithrediadau | Cynnydd |
|---|---|
| | • Gwnaeth 18 cyfranogwr o amrywiaeth eang o bartneriaid fynychu Hyfforddiant Cynhwysiant Anabledd.<br>• 7 Council staff, Arweinydd Gweledol o MAGNET a 2 Swyddog o'r Urdd yn mynychu Hyfforddiant Ymwybyddiaeth LGBT Chwaraeon Cymru. |
| **Gweithredu4:**<br>Datblygu tudalennau hyfforddi Cydraddoldebau ar Fewnrwyd y Cyngor fel adnodd dysgu a gwybodaeth. | Cafodd tudalen hyfforddi ei osod ar Fewnrwyd y Cyngor i weithredu fel adnodd dysgu a gwybodaeth i staff a Chynghorwyr.<br><br>Wrth weithio â Chydlynydd Cydlyniad Cymunedol Rhanbarthol Cwm Taf ac mewn ymgynghoriad â Llais Cymunedol Prosiect MAGNET, mae taflenni ffeithiau ar gyfer pob un o'r naw nodwedd a ddiogelir yn cael eu datblygu.<br><br>Disgwylir i'r taflenni ffeithiau ddarparu'r buddion canlynol:<br><br>• Gwella ein gwybodaeth am faterion cydraddoldeb cenedlaethol a lleol drwy nodwedd a ddiogelir.<br>• Gwella ein dealltwriaeth o'n cwsmeriaid.<br>• Mae'r Cyngor yn hyrwyddo cydraddoldebau yn y gweithle.<br>• Bydd yn gweithredu fel adnodd gwybodaeth i staff wrth gwblhau Asesiad Effaith Integredig newydd y Cyngor.<br><br>Cafodd tair taflen ffeithiau eu cynhyrchu hyd yma ar gyfer Anabledd, Cyfeiriadedd Rhywiol a Hil. Mae'r rhain ar gael ar dudalen hyfforddi Cydraddoldebau'r Cyngor. |
| **Gweithredu5:**<br>Gweithio â'r Cydlynydd Cydlyniad Cymuned Ranbarthol i gyflenwi amrywiaeth o hyfforddiant Cydraddoldeb. | Mae 749 o staff hyd yma wedi bod yn bresennol mewn Gweithdy Codi Ymwybyddiaeth am Rwystro (Workshop to Raise Awareness of Prevent (WRAP)). Mae Rhwystro/Prevent yn rhan o strategaeth gwrthderfysgaeth y Llywodraeth, cafodd ei gynllunio i fynd i'r afael â'r broblem o derfysgaeth o'i wreiddiau, gan atal pobl rhag cefnogi terfysgaeth nac ymwneud â therfysgaeth eu hunain.<br><br>Yn ychwanegol, cafodd 60 aelod o staff fynediad at gwrs |

| Gweithrediadau | Cynnydd |
|---|---|
| | hyfforddiant ar lein (a gymeradwywyd gan y Swyddfa Gartref). Gofalwyr plant a staff yr Ymddiriedolaeth Hamdden ydyn nhw. Mae wedi ei alinio'n agos at hyfforddiant WRAP, ac mae'n fwy addas na cheisio trefnu sesiynau ystafell ddosbarth ar eu cyfer.<br><br>Cafodd poster ei ddylunio a'i argraffu hefyd, sy'n darparu gwybodaeth bellach a beth i'w wneud os oes unrhyw bryderon gan bobl. Caiff y poster ei arddangos ar adeiladau'r Cyngor a'r Ymddiriedolaeth Hamdden. |
| **<u>Gweithredu6:</u>**<br>Asesu a diffinio unrhyw rwystrau diwylliannol a allai fod yn atal staff rhag teimlo'n 'ddiogel' i ddatgelu data cydraddoldebau, byddwn yn ymgymryd â hyfforddiant polisi ar Urddas a Pharch yn y Gwaith, Cod Ymddygiad Cyflogeion, Gwerthoedd ac Ymddygiad – disgwylir gan bawb. | Mae nifer o Bolisïau AD mewn lle gan y Cyngor, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Llawlyfr Staff.<br>• Urddas a Pharch yn y Gwaith.<br>• Cod Ymddygiad.<br>• Disgyblaethol.<br>• Cwyno.<br>• Chwythu'r Chwiban.<br>• Trais yn erbyn Menywod, Cam drin Domestig a Thrais Rhywiol.<br>• Polisi Cydraddoldeb y Gweithlu.<br><br>Caiff y Polisïau hyn eu hadolygu'n rheolaidd yn unol ag arfer dda a deddfwriaeth. Ar hyn o bryd mae'r tîm AD yn ystyried cyfres o 'hyfforddiant statudol / gorfodol' i'w holl reolwyr. Cafodd y polisïau hyn eu cynllunio mewn ymgynghoriad â staff a'u cynrychiolwyr ar yr undebau llafur.<br><br>Mae'r Tîm Gweithredol AD yn mabwysiadu ffordd hyfforddiant a mentora o gyflenwi wrth gefnogi rheolwyr i ddeall eu cyfrifoldebau. Yn ychwanegol, mae'r adran AD ar hyn o bryd yn gweithio ar gynhyrchu cynllun hyfforddiant ar y polisïau hyn i gefnogi rheolwyr pobl gyfredol ac yn y dyfodol. Caiff y rhain eu cynnig fel modiwlau sy'n atodi at raglen bresennol yr Academi |

| Gweithrediadau | Cynnydd |
| --- | --- |
| | Rheolwyr. |
| **Gweithredu7:**<br>Creu Cynllun Gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau diwylliannol. | Bydd y Cynllun Gweithredu yn cynnwys ffordd o ddysgu a gweithgaredd datblygu hyfforddiant sy'n cyfuno hyfforddiant, mentora ac e ddysgu ar lein. |
| **Gweithredu8:**<br>Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i gynnig i staff, Cynghorwyr a sefydliadau partner, amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi am Gydraddoldebau. | Fel y gwelir o'r gweithrediadau uchod, mae'r Cyngor wedi gweithio gyda nifer o bartneriaid i gynnig cyfleoedd hyfforddi Cydraddoldeb, er enghraifft:<br><br>• Portffolio o Brosiectau MAGNET.<br>• Chwaraeon Anabledd Cymru.<br>• Heini Merthyr.<br>• Cydlynydd Cydlyniad Cymunedol Rhanbarthol Cwm Taf.<br>• Project Atal/Prevent. |

**NOD CYDRADDOLDEB 3**

**THEMA: DEALL EIN STAFF A'N CYMUNEDAU**

| Mesurau | 2016/17 |
|---|---|
| 1. Mae'r Cyngor yn derbyn cofrestriad fel Cyflogwr Cyfle Cyfartal "Two Ticks" (Ffynhonnell: Yr Adran Waith a Phensiynau). | Ym mis Awst 2016, trosglwyddodd y Cyngor o gynllun 'Two Ticks'; Cadarnhaol ynghylch Anabledd i gynllun newydd; Hyderus o ran Anabledd yn dilyn y newidiadau a gyflwynwyd gan Yr Adran Waith a Phensiynau.<br><br>Mae'r dyfarniad yn ardystio fod y Cyngor yn Gyflogwr Hyderus ac Ymroddedig i'r Anabl, sy'n arddangos ymrwymiad y Cyngor i recriwtio, cadw a datblygu staff anabl. |
| 2. Cynnydd yn y nifer o gyflogeion sy'n datgelu data personol i alluogi'r Cyngor i fod yn sensitif a diwallu eu hanghenion (Ffynhonnell: Data'r Cyngor). | Mae'r Cyngor wedi derbyn cyfradd derbyn gwybodaeth yn ôl oddi wrth y staff o 90%.<br><br>Mae hyn yn cymharu â'r 18% blaenorol ar draws y Cyngor a staff Ysgolion. |

| Gweithrediadau | Cynnydd |
|---|---|
| **Gweithredu1**<br>Dynodi gofynion data ar gyfer Ffurflen Monitro Cydraddoldebau drwy ddynodi pa wybodaeth sydd ei hangen (cymryd i ystyriaeth adrodd yn ôl a gofynion gwybodaeth berthnasol Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus). | Mae'r Cyngor wedi adolygu ei Ffurflen Monitro Cydraddoldebau i sicrhau ei fod yn gafael yn y data Cydraddoldeb angenrheidiol am ei gyflogai drwy gymryd i ystyriaeth adrodd am Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a gofynion gwybodaeth berthnasol.<br><br>Cafodd y Ffurflen Monitro Cydraddoldebau sy'n gafael yn y data cydraddoldebau wedi cael ei ddatblygu fel Adran yn HR21 (HR21 yw System Hunan Wasanaeth Rheolwyr a Chyflogeion y Cyngor).<br><br>Cafodd hwn ei gyflwyno i'r holl staff ym mis Medi 2016. Derbyniodd staff heb ddefnydd o gyfrifiadur gopïau caled o'r ffurflen oddi wrth eu rheolwyr iddynt ei chwblhau. |
| **Gweithredu2**<br>Datblygu monitro electronig a system recordio i gadw'r holl ofynion data ar gyfer defnyddio Ffurflen Monitro Cydraddoldebau HR21. | |
| **Gweithredu3**<br>Datblygu copi papur o'r Ffurflen Monitro Cydraddoldebau. | |
| **Gweithredu4**<br>Cyfathrebu neges i'r holl staff (sydd â defnydd o gyfrifiadur) i gwblhau'r Ffurflen Monitro Cydraddoldebau. | |

| | |
|---|---|
| **<u>Gweithredu5</u>**<br>Cynnwys Ffurflen Monitro Cydraddoldebau yn yr holl waith papur recriwtio.<br>**<u>Gweithredu6</u>**<br>Dosbarthu copi papur o'r Ffurflen Monitro Cydraddoldebau yn raddol i'r staff sydd heb ddefnydd o gyfrifiadur.<br>**<u>Gweithredu7</u>**<br>Monitro ac adrodd yn ôl ar y nifer o staff sydd wedi cwblhau'r Ffurflen Monitro Cydraddoldebau drwy HR21.<br>**<u>Gweithredu8</u>**<br>Cofnodi Ffurflen Monitro Cydraddoldebau papur yn HR21.<br>**<u>Gweithredu9</u>**<br>Monitro ac adrodd yn ôl ar y nifer o staff sydd wedi cwblhau copi papur o'r Ffurflen Monitro Cydraddoldebau.<br>**<u>Gweithredu10</u>**<br>Atgoffa staff o bwysigrwydd sicrhau fod eu gwybodaeth cydraddoldeb cyflogaeth yn cael ei hadolygu'n barhaus ac yn gyfredol.<br>**<u>Gweithredu11</u>**<br>Adrodd yn ôl yn flynyddol ar ddata cydraddoldeb cyflogai. | |
| **<u>Gweithredu12</u>**<br>Dynodi gofynion data a datblygu proses i gadw ac adrodd yn ôl ar ddata cydraddoldebau oddi wrth gwsmeriaid.<br>**<u>Gweithredu13</u>**<br>Datblygu a dosbarthu Ffurflen Monitro Cydraddoldebau i wasanaethau i'w galluogi nhw i gadw data cydraddoldebau oddi wrth gwsmeriaid.<br>**<u>Gweithredu14</u>**<br>Atgoffa gwasanaethau o bwysigrwydd cofnodi data cydraddoldeb cwsmeriaid.<br>**<u>Gweithredu15</u>**<br>Adrodd yn ôl yn flynyddol ar ddata cydraddoldeb cwsmeriaid..<br>**<u>Gweithredu16</u>**<br>Pan na fyddant eisoes mewn lle, annog gwasanaethau i | Mewn perthynas â chadw data cydraddoldeb ar ein defnyddwyr gwasanaeth, dynodwyd yr angen i ddatblygu Ffurflen Monitro Cydraddoldebau.<br><br>Cafwyd ymarferiad i gefnogi hyn, gan weithio ag Uwch Dîm Arweiniol y Cyngor, adolygwyd beth oedd meysydd gwasanaeth data cydraddoldeb yn ei nodi am ddefnyddwyr gwasanaeth, am beth oedden nhw'n defnyddio'r data a sut yr oedden nhw'n adrodd amdano.<br><br>Gwnaeth canlyniadau'r ymarfer hwn arddangos fod meysydd gwasanaeth yn nodi lefelau gwahanol o ddata cydraddoldeb ac yn ei ddefnyddio mewn gwahanol ffyrdd. |

| | |
|---|---|
| ddatblygu ffurflenni adborth mewn perthynas â'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu, i sefydlu lefelau o fodlonrwydd, dynodi unrhyw rwystrau a allai fodoli sy'n atal pobl rhag cael mynediad at y gwasanaethau hyn. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau fod yr holl ffurflenni adborth yn gofyn cwestiynau monitro cydraddoldebau. | Ar ôl trafod canlyniadau'r ymarfer â'r Prif Swyddogion a Phenaethiaid Gwasanaeth, cynigiodd Pennaeth Llesiant Cymunedol, yn garedig, i weithio â'r Rheolwr Risg Corfforaethol a Chydraddoldebau i ddatblygu Ffurflen Monitro Cydraddoldebau a gosod ar beilot oddi fewn i'r meysydd gwasanaeth.<br><br>Cafodd ffurflen ddrafft ei pharatoi wedi ei llywio gan ffurflenni ymrestru/cofrestru a ddefnyddiwyd gan wasanaethau yn Llesiant Cymuedol.<br><br>Yna, cafodd y ffurflen ddrafft ei rhannu â chydweithwyr o Lesiant Cymunedol, Cydlyniant Cymunedol a Chwaraeon i'r Anabl aem eu sylwadau ac adborth, ac yn dilyn hynny, datblygwyd y ffurflen ymhellach.<br><br>Cafodd y ffurflen ei gosod ar beilot gan feysydd gwasanaeth oddi fewn i'r Gwasanaeth Llesiant Cymunedol dros gyfnod o dri mis gyda sampl rheoleiddiol o ddefnyddwyr gwasanaeth.<br><br>Cafodd y canfyddiadau o'r peilot eu dadansoddi a'u trafod â chydweithwyr o Lesiant Cymunedol er mwyn dynodi effeithiolrwydd y ffurflen.<br><br>Y cam nesaf bellach yw paratoi adroddiad ar gyfer y Tîm Rheoli Corfforaethol sy'n nodi'r canfyddiadau a'r argymhellion yn dilyn y peilot. |

**NOD CYDRADDOLDEB 4**

**THEMA: RHYWEDD/ CYFLOG CYFARTAL**

| Mesurau | 2016/17 |
|---|---|
| 1. Deall unrhyw fwlch cyflog rhywedd a allai fod gyda'r Cyngor (Ffynhonnell: Data'r Cyngor). | Gweler sylwadau isod ar gyfer Gweithredu1. |

| Gweithrediadau | Cynnydd |
|---|---|
| **Gweithredu1**<br>Ymgymryd ag Asesiad Effaith Cydraddoldeb i gael dealltwriaeth waelodol o unrhyw faterion cyflog cyfartal yn y Cyngor. | Mae'r Cyngor yn ymgymryd ag adrodd yn ôl yn rheolaidd am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Caiff pob swydd ei gwerthuso gan ddefnyddio'r cynllun canlynol: Greater London Provincial Council scheme of Job Evaluation (ac eithrio Penaethiaid Gwasanaeth sy'n cael eu prosesu drwy'r Cynllun HAY). Ni chaiff unrhyw wybodaeth bersonol am ddeiliad y swydd ei hysgytied ar yr adeg hon. O ganlyniad, mae'r system raddio yn rhydd o unrhyw dueddiad anymwybodol. Caiff y graddau a'r mecanweithiau taliad ychwanegol sy'n cael eu gweithredu gan y Cyngor eu darparu ar sail rhywedd niwtral. Felly, nid oes unrhyw anghysonderau amlwg rhwng rhywiau yn ystod yr adrodd yn ôl.<br><br>Yn Lloegr, bydd rhaid i sefydliadau'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol â 250 neu fwy o gyflogeion adrodd yn ôl am eu bylchau cyflog rhwng y rhywiau gan ddefnyddio meini prawf fel y nodwyd isod. Tra nad yw'r rheoliad hwn yn gymwys ar hyn o bryd i Gynghorau yng Nghymru, mewn cyfarfod diweddar o Gyfarwyddwyr AD mewn Cynghorau Lleol ledled Cymru, teimlwyd fod darparu'r wybodaeth yn dryloyw, agored a theg cyn bod yna unrhyw orfodaeth ffurfiol ar Gynghorau i'w darparu. |

<table>
<tr><th>Gweithrediadau</th><th>Cynnydd</th></tr>
<tr><td></td><td>
<table>
<tr><th></th><th>Cymedr Cyfradd Bob Awr</th><th>Canolrif Cyfradd Bob Awr</th></tr>
<tr><td>Dyn</td><td>£14.47</td><td>£12.18</td></tr>
<tr><td>Menyw</td><td>£13.70</td><td>£11.74</td></tr>
<tr><td>Bwlch Cyflog</td><td>£0.77</td><td>£0.44</td></tr>
</table>
Mae’r bwlch cyflog yn fach rhwng Dyn a Menyw o ran cymedr a chanolrif cyfraddau bob awr. Wrth gyfrifo’r wybodaeth yn y ffordd hon, gallwn gymharu’n hunain yn syth â Chynghorau eraill yng Nghymru a Lloegr.</td></tr>
<tr><td><u>Gweithredu2</u><br>Cyhoeddi Datganiad Polisi Cyflog Blynyddol.</td><td>Cafodd Datganiad Polisi Cyflogau’r Cyngor ar gyfer 2016/17 ei gymeradwyo gan y Cyngor Cyflawn ar 23 Mawrth 2016.</td></tr>
<tr><td><u>Gweithredu3</u><br>Ble y bo’n angenrheidiol, gwneud newidiadau i bolisïau ac ymarferion y canfyddir eu bod yn ffactor cyfrannol at unrhyw anghydraddoldeb mewn cyflogaeth a ddynodwyd.</td><td>Nid oes yna anghydraddoldeb mewn cyflogau. Caiff pob swydd ei sgorio’n deg ac yn gyson yn unol â chynllun Greater London Provincial. Caiff ein polisïau a’n gweithdrefnau eu monitro’n barhaus a’u hadolygu i sicrhau nad oes yna unrhyw rwystrau cudd na chanfyddedig. Yn hanesyddol, y Cyngor ar y cyd â’r Undebau Llafur oedd yn ymgymryd â llawer o waith gan weithredu statws sengl a meingefn cyflog newydd.<br><br>Yn wir, mae’r Cyngor wedi gweithio’n galed i gyflawni mwy nag sy’n ofynnol o’i oblygiadau statudol gofynnol. Enghraifft o hyn yw’r Isafswm Cyflog Cenedlaethol a Chyflog Byw. Nid yn unig wnaeth y Cyngor ddewis cyflwyno Cyflog Byw, ond hefyd, yr oedd yn un o ddim ond ychydig o Gynghorau yng Nghymru i arwyddo am Gyflog Byw Sylfaenol, gan ddileu llawer o Bwyntiau Colofn Meingefn ar waelod y raddfa yn unol â hynny. Mae’r buddsoddiad hwn yn golygu fod effaith cynnig diweddar cyflogwyr i’r undeb llafur (2.0% y cant dros ddwy flynedd, a chanran ychwanegol i staff ar waelod y raddfa (cyfeirir ato fel “bottom loading”) i ddod â nhw i fyny at yr hyn sy’n gyfartal â chyflog byw sylfaenol) yn cael ei osgoi.</td></tr>
</table>

**ATODIAD B**

## DATBLYGIADAU CYDRADDOLDEBAU ERAILL

### Diwrnod Cofio'r Holocost a Datblygiadau eraill gan Lyfrgell Gyhoeddus Merthyr Tudful.

- Llwyddodd Llyfrgell Gyhoeddus Merthyr Tudful i gael arian oddi wrth Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocost i greu gardd mewn ardal y tu ôl i'r Llyfrgell. Y Llyfrgell oedd yr unig le yng Nghymru i sicrhau'r arian i greu darn o waith celf a fyddai'n cynrychioli'r thema "Sut all bywyd fynd yn ei flaen". Dewisodd y Llyfrgell wneud mosaig o'r pedwar tymor gan dderbyn cymorth oddi wrth amrywiol grwpiau cymunedol i gyflawni hyn.

- Ar 27 Ionawr, 2017, gwnaeth Gwasanaeth Llyfrgell Gyhoeddus Merthyr Tudful, mewn partneriaeth ag Eglwys Dewi Sant, gynnal Gwasanaeth Blynyddol Diwrnod Cofio'r Holocost gyda hyd at 200 o bobl a chynrychiolwyr o lawer o grwpiau actif ym Merthyr Tudful yn bresennol, yn cynnwys y Sgowtiaid, Cadetiaid Awyr, Y Lleng Brydeinig a llawer mwy. Ar ôl y gwasanaeth, cerddodd y gynulleidfa i Ardd Goffa'r Holocost oedd newydd ei chreu ac a leolir y tu ôl i'r Llyfrgell Ganolog, ac fe'i hagorwyd yn swyddogol gan yr Athro Syr Mansel Aylward.

  Gan arwain at Ddiwrnod Coffa'r Holocost, roedd y llyfrgell yn ffodus o gael goroeswraig i ddod i siarad am ei phrofiadau. Ei henw Joanna Millan ac fe'i ganwyd yn Bela Rosenthal; goroesodd gael ei hanfon i wersyll Terizin, ar ôl colli ei rhieni. Ym 1945 fe'i hanfonwyd i Loegr. Mae hi'n adrodd hanes anodd ei bywyd ag angerdd a thristwch hefyd. Daeth 60 o bobl i'r digwyddiad ac roedden nhw oll wedi eu cyffwrdd gan ei phrofiadau.

  Hefyd wrth ddynesu at Ddiwrnod Cofio'r Holocost, ymwelodd y Gwasanaeth Llyfrgell â nifer o ysgolion i hyrwyddo neges Diwrnod Cofio'r Holocost, sef "Sut all bywyd fynd yn ei flaen."

- Derbyniodd Llyfrgelloedd Cyhoeddus Merthyr Tudful grant oddi wrth y Loteri Fawr i ddatblygu'r rhaglen "Siediau i Bawb" ymhellach. Gwnaeth y Llyfrgell ddatblygu'r cysyniad hwn yn sgil ymchwil o Awstralia a wnaeth ddangos effaith negyddol unigrwydd ac arwahaniad ar iechyd a llesiant person.

  Nod y rhaglen "Siediau i Bawb" yw pobl yn cael hwyl, rhannu sgiliau a gwybodaeth gyda phobl o'r un anian gan ennill ymwybyddiaeth newydd o bwrpas a pherthyn i leihau arwahaniad ac unigrwydd.

  Mae'r Llyfrgell wedi dechrau dau grŵp cyrlio yn cynnwys pobl sydd:

    - Wedi eu hynysu yn gymdeithasol.
    - Wedi eu cyfeirio gan y Meddyg Teulu.

  Mae gan y Llyfrgell hefyd grŵp o wirfoddolwyr sydd yn helpu i ddatblygu ymhellach Gardd Goffa'r Holocost.

### Trosedd Casineb

- Rydym wedi ymgysylltu yn rhanbarthol â phartneriaid am Drosedd Casineb er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth. Roedd hyn yn cynnwys Digwyddiad Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb Cwm Taf a gynhaliwyd yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Casineb Cwm Taf i amlygu'r gwaith cyfredol yn ardal Cwm Taf ac i gynyddu ymwybyddiaeth a chefnogi dioddefwyr trosedd casineb.

Yn ychwanegol, gwnaeth y Cyngor a'i ysgolion gefnogi "Diwrnod Gwisgo Coch" Dangos y Garden Goch i Hiliaeth, ddydd Gwener 21 Hydref 2016.

**Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol i Ysgolion**

- Mae hefyd angen i ysgolion ddatblygu a chyhoeddi Nodau cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol. Diben y rhain yw galluogi cyflawni deilliannau cydraddoldeb mesuradwy sy'n gwella bywydau unigolion a chymunedau.

  Cafodd templed Cynllun Cydraddoldeb Strategol a chanllawiau eu datblygu i ysgolion a'i alinio â Chynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ar gyfer 2016 2020 a'i Weledigaeth Cydraddoldebau ar gyfer Merthyr Tudful, sef:

  > ***Lle ble y mae amrywiaeth yn cael ei gwerthfawrogi a'i pharchu a ble y gall pawb gyfranogi, ffynnu a chael y cyfle i gyflawni ei botensial yn rhydd o wahaniaethu a rhagfarn.***

**Pride Cymru 2016**

- Roedd y Cyngor yn falch o fod yn rhan o Pride Cymru ym mis Awst 2016, gyda sefydliadau eraill y sector cyhoeddus o bob rhan o Dde Cymru i ymgysylltu â'r gymuned LGBT. Y nod oedd ymgysylltu â'r gymuned LGBT i ganfod pa faterion sy'n bwysig iddyn nhw, ac o ganlyniad, gwella profiadau pobl leol LGBT ledled De Cymru wrth iddynt gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus.

  Er mwyn dathlu'r digwyddiad hwn, codwyd baner Enfys y tu allan i'r Ganolfan Ddinesig ar yr un diwrnod â Pride Cymru.

**Clwb Nos LGBT**

- Wedi ei hwyluso gan Brosiect Gweledol sy'n ffurfio rhan o MAGNET, cynhaliwyd Clwb Nos LGBT cyntaf Merthyr Tudful ym mis Chwefror 2017 yn Neuadd Scala.

**Llwyfan e=Ddysgu – Cwrs Trais yn erbyn Menywod, Cam=drin Domestig a Thrais Rhywiol**

- Mae'r Cyngor wedi lansio cyfleuster e Ddysgu i'r holl staff a Chynghorwyr a fydd yn galluogi'r Cyngor i gofnodi ac adrodd am yr hyfforddiant a ddarperir drwy'r porth dysgu hwn. Y modiwl cyntaf a gwblhawyd yw'r un ar gyfer Trais yn erbyn Gwragedd, Cam drin Domestig a Thrais Rhywiol.

**Rhwydwaith Cydraddoldeb**

- Mae'r Cyngor yn rhan o Rwydwaith Cydraddoldeb Cynghorau De Cymru. Mae'r Rhwydwaith yn cwrdd yn rheolaidd ac yn rhannu arfer orau cydraddoldeb a gwybodaeth. Cynhaliodd y Cyngor gyfarfod ym mis Ionawr 2017, gyda nifer dda yn bresennol o nifer o Gynghorau.

**Rhwydwaith Cyfnewid Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

- Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb Hawliau Dynol yn cynnal Cynadleddau Rhwydwaith Cyfnewid ledled Cymru. Cafodd y Gynhadledd Rhwydwaith Cyfnewid ym mis Mawrth 2017 ei gynnal yng Nghanolfan Fusnes Orbit, Merthyr Tudful.

**ATODIAD C**

## DATA'R GWEITHLU – STAFF A GYFLOGIR GAN Y CYNGOR 31 MAWRTH 2017 (GAN Y GYFARWYDDIAETH)

### Nifer o Staff

| Cyfarwyddiaeth | Parhaol | Cyfnod penodol | Llawn amser | Rhan amser | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Prif weithredwr | 43 | 1 | 34 | 10 | 44 |
| Lle a Gweddnewidiad | 443 | 16 | 368 | 91 | 459 |
| Pobl a Pherfformiad | 1476 | 338 | 696 | 1118 | 1814 |
| Cyfanswm | 1962 | 355 | 1098 | 1219 | 2317 |

### Oed

| Cyfarwyddiaeth | 16=34 | 35=54 | 55=64 | 65+ | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Prif weithredwr | 9 | 26 | 9 | 0 | 44 |
| Lle a Gweddnewidiad | 100 | 282 | 73 | 4 | 459 |
| Pobl a Pherfformiad | 548 | 963 | 277 | 26 | 1814 |
| Cyfanswm | 657 | 1271 | 359 | 30 | 2317 |

### Anabledd

| Cyfarwyddiaeth | Byddar / Nam ar y Clyw | Anawsterau Iechyd Meddwl | Nam Symudedd | Nam Dysgu |
|---|---|---|---|---|
| Prif weithredwr | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Lle a Gweddnewidiad | 6 | 2 | 1 | 1 |
| Pobl a Pherfformiad | 7 | 3 | 6 | 2 |
| Cyfanswm | 13 | 6 | 7 | 3 |

## Anabledd – parhad

| Cyfarwyddiaeth | Salwch Hir Dymor | Nam Gweledol | Arall | Ddim am ateb Ddim yn gwybod | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Prif weithredwr** | 1 | 0 | 0 | 42 | **44** |
| **Lle a Gweddnewidiad** | 11 | 2 | 2 | 434 | **459** |
| **Pobl a Pherfformiad** | 38 | 2 | 9 | 1747 | **1814** |
| **Cyfanswm** | **50** | **4** | **11** | **2223** | **2317** |

## Rhywedd

| Cyfarwyddiaeth | Dyn | Menyw | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **Prif weithredwr** | 14 | 30 | **44** |
| **Lle a Gweddnewidiad** | 266 | 193 | **459** |
| **Pobl a Pherfformiad** | 302 | 1512 | **1814** |
| **Cyfanswm** | **582** | **1735** | **2317** |

## Cyfeiriadedd Rhywiol

| Cyfarwyddiaeth | Menyw hoyw/ Lesbiad | Dyn hoyw | Deurywiol | Heterorywiol / Strêt |
|---|---|---|---|---|
| **Prif weithredwr** | 0 | 0 | 0 | 41 |
| **Lle a Gweddnewidiad** | 1 | 0 | 0 | 372 |
| **Pobl a Pherfformiad** | 9 | 7 | 2 | 1009 |
| **Cyfanswm** | **10** | **7** | **2** | **1422** |

**Cyfeiriadedd Rhywiol = parhad**

| Cyfarwyddiaeth | Arall | Ddim am ateb /Ddim yn gwybod | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **Prif weithredwr** | 0 | 3 | **44** |
| **Lle a Gweddnewidiad** | 0 | 86 | **459** |
| **Pobl a Pherfformiad** | 5 | 782 | **1814** |
| **Cyfanswm** | **5** | **871** | **2317** |

**Crefydd**

| Cyfarwyddiaeth | Cristion | Dim crefydd | Bwdhydd | Iddew |
|---|---|---|---|---|
| **Prif weithredwr** | 23 | 14 | 0 | 0 |
| **Lle a Gweddnewidiad** | 153 | 148 | 0 | 0 |
| **Pobl a Pherfformiad** | 545 | 568 | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **721** | **730** | **1** | **1** |

**Crefydd continued**

| Cyfarwyddiaeth | Islamaidd | Arall | Ddim am ateb Ddim yn gwybod | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Prif weithredwr** | 0 | 2 | 5 | **44** |
| **Lle a Gweddnewidiad** | 0 | 11 | 147 | **459** |
| **Pobl a Pherfformiad** | 3 | 82 | 614 | **1814** |
| **Cyfanswm** | **3** | **95** | **766** | **2317** |

## Ethnigrwydd

| Cyfarwyddiaeth | Prydeinig Gwyn | Gwyn Arall | Asiaidd | Caribïaidd Du |
|---|---|---|---|---|
| **Prif weithredwr** | 42 | 0 | 0 | 0 |
| **Lle a Gweddnewidiad** | 365 | 8 | 2 | 1 |
| **Pobl a Pherfformiad** | 1371 | 16 | 9 | 1 |
| **Cyfanswm** | **1778** | **24** | **11** | **2** |

## Ethnigrwydd – parhad

| Cyfarwyddiaeth | Affricanaidd Du | Hil Gymysg | Ddim am ateb / Ddim yn gwybod | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Prif weithredwr** | 0 | 0 | 2 | **44** |
| **Lle a Gweddnewidiad** | 0 | 0 | 83 | **459** |
| **Pobl a Pherfformiad** | 1 | 3 | 413 | **1814** |
| **Cyfanswm** | **1** | **3** | **498** | **2317** |

## Iaith Gyntaf

| Cyfarwyddiaeth | Saesneg | Cymraeg | Malteeg | Pwyleg |
|---|---|---|---|---|
| **Prif weithredwr** | 37 | 0 | 0 | 0 |
| **Lle a Gweddnewidiad** | 317 | 7 | 1 | 1 |
| **Pobl a Pherfformiad** | 981 | 18 | 0 | 6 |
| **Cyfanswm** | **1335** | **25** | **1** | **7** |

## Iaith Gyntaf – parhad

| Cyfarwyddiaeth | Almaeneg | Portwgeeg | Tsieinëeg | Ffilipineg |
|---|---|---|---|---|
| **Prif weithredwr** | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Lle a Gweddnewidiad** | 1 | 1 | 0 | 0 |
| **Pobl a Pherfformiad** | 1 | 0 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **2** | **1** | **0** | **1** |

**Iaith Gyntaf – parhad**

| Cyfarwyddiaeth | Iaith Tai | Ddim am ateb /Ddim yn gwybod | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **Prif weithredwr** | 0 | 7 | **44** |
| **Lle a Gweddnewidiad** | 0 | 131 | **459** |
| **Pobl a Pherfformiad** | 1 | 806 | **1814** |
| **Cyfanswm** | **1** | **944** | **2317** |

Mae data'r gweithlu yn parhau dros y dudalen.

| Proffil Pobl – Cyflog | Staff i gyd | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Gwyw | | Benyw | |
| | Llawn amser | Rhan amser | Llawn amser | Rhan amser |
| **£0=£4,999** | 0 | 25 | 0 | 191 |
| **£5,000=£9,999** | 0 | 15 | 0 | 209 |
| **£10,000=£14,999** | 0 | 57 | 0 | 303 |
| **£15,000=£19,999** | 41 | 24 | 26 | 279 |
| **£20,000=£24,999** | 194 | 5 | 152 | 59 |
| **£25,000=£29,999** | 32 | 4 | 79 | 24 |
| **£30,000=£39,999** | 122 | 3 | 294 | 18 |
| **£40,000=£49,999** | 48 | 2 | 54 | 1 |
| **£50,000=£59,999** | 7 | 0 | 13 | 0 |
| **£60,000=£69,999** | 13 | 0 | 11 | 0 |
| **£70,000+** | 7 | 0 | 5 | 0 |
| **Cyfrifwyd: Cyfanswm y nifer o gyflogau** | **464** | **135** | **634** | **1,084** |

**Ceisiadau am Swydd**

O ran y nifer o staff wnaeth wneud cais am swydd yn fewnol yn y Cyngor, gwnaethom ni dderbyn 396 o geisiadau mewnol, gyda 93 ohonynt yn ddynion a 303 ohonynt yn fenywod.

O ran ymgeiswyr allanol, derbyniodd y Cyngor 1,331 o geisiadau allanol.

Mae data'r gweithlu yn parhau dros y dudalen.

| Categorïau Cydraddoldeb | Nifer o gyflogeion sy'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno | | Nifer o gyflogeion sy'n atebol i weithdrefnau disgyblaethol | Nifer o gyflogeion sydd wedi gadael y Cyngor | Nifer o staff sy'n cymryd absenoldeb mamolaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| | Fel y sawl sy'n cwyno | Person y mae cwyn yn cael ei wneud yn ei erbyn | | | |
| **Oed** | **2** | **1** | **24** | **238** | **56** |
| 16 34 | 0 | 0 | 6 | 71 | 41 |
| 35 54 | 1 | 1 | 13 | 81 | 15 |
| 55 64 | 1 | 0 | 5 | 68 | 0 |
| 65+ | 0 | 0 | 0 | 18 | 0 |
| Ddim am ateb / Ddim yn gwybod | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Sex** | **2** | **1** | **24** | **238** | **56** |
| Dyn | 2 | 1 | 13 | 69 | 0 |
| Menyw | 0 | 0 | 11 | 169 | 56 |
| Ddim am ateb / Ddim yn gwybod | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Anabledd** | **2** | **1** | **24** | **238** | **56** |
| Anabl | 0 | 0 | 0 | 10 | 1 |
| Ddim yn anabl | 2 | 1 | 24 | 146 | 46 |
| Ddim am ateb / Ddim yn gwybod | 0 | 0 | 0 | 82 | 9 |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | **2** | **1** | **24** | **238** | **56** |
| Heterorywiol | 2 | 1 | 15 | 147 | 47 |
| Lesbiad/Hoyw | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Deurywiol | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 |
| Arall | 0 | 0 | 0 | 0 | 9 |

| Categorïau Cydraddoldeb | Nifer o gyflogeion sy'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno | | Nifer o gyflogeion sy'n atebol i weithdrefnau disgyblaethol | Nifer o gyflogeion sydd wedi gadael y Cyngor | Nifer o staff sy'n cymryd absenoldeb mamolaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| | Fel y sawl sy'n cwyno | Person y mae cwyn yn cael ei wneud yn ei erbyn | | | |
| Ddim am ateb / Ddim yn gwybod | 0 | 0 | 9 | 88 | 0 |
| **Grŵp Ethnig** | **2** | **1** | **24** | **238** | **56** |
| Saesneg/Cymraeg | 2 | 1 | 24 | 142 | 46 |
| Gwyn Arall | 0 | 0 | 0 | 4 | 0 |
| Asiaidd | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 |
| Ddim am ateb / Ddim yn gwybod | 0 | 0 | 0 | 90 | 10 |
| **Crefydd neu Gredo** | **2** | **1** | **24** | **238** | **56** |
| Dim crefydd | 0 | 0 | 9 | 52 | 16 |
| Christion (pob enwad) | 0 | 0 | 5 | 57 | 21 |
| Islamaidd | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Bwdhaidd | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Arall | 0 | 0 | 0 | 14 | 0 |
| Ddim am ateb / Ddim yn gwybod | 2 | 1 | 10 | 114 | 18 |

**CYSYLLTIAD RHWNG NODAU CYDRADDOLDEB STRATEGOL Y CYNGOR AR GYFER 2016=2020 A DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015 A DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014**

| Thema | Nodau cydraddoldeb | Y cysylltiad â'r saith Nod Llesiant | Y cysylltiad ag Egwyddorion Datblygiad Cynaliadwy | Y cysylltiad â Social Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Ymgysylltiad Cymunedol** | **Nod Cydraddoldeb 1**<br>Gosod llais dinasyddion wrth galon gwneud penderfyniadau lleol fel bod eu cyfraniad yn cael ei ddeall, ei gydnabod a'i ddefnyddio i helpu'r Cyngor ddeall ac ymateb i anghenion ei gymunedau. . | • Cymru iachach.<br>• Cymru sy'n fwy cyfartal.<br>• Cymru o gymunedau cydlynus.<br>• Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. | • Tymor hir.<br>• Ataliad.<br>• Cydweithrediad.<br>• Ymglymiad.<br>• Integreiddiad. | • Iechyd corfforol a meddylion a llesiant emosiynol.<br>• Diogelu rhag cam drin ac esgeulustod.<br>• Addysg, hyfforddiant a hamdden.<br>• Perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol.<br>• Cyfraniad a wnaed i'r gymdeithas.<br>• Sicrhau hawliau.<br>• Mewn perthynas â phlant; llesiant corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol.<br>• Mewn perthynas ag oedolion; rheolaeth dros fywyd o ddydd i ddydd a chyfranogiad mewn gwaith. |
| **Codi Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb** | **Nod Cydraddoldeb 2**<br>Cefnogi a hwyluso hyfforddiant cydraddoldebau a chyfleoedd dysgu fel bod staff ar bob lefel, Cynghorwyr a phartneriaid yn | • Cymru sy'n fwy cyfartal.<br>• Cymru o gymunedau cydlynus. | • Tymor hir.<br>• Ataliad.<br>• Cydweithrediad.<br>• Ymglymiad.<br>• Integreiddiad. | • Addysg, hyfforddiant a hamdden.<br>• Cyfraniad a wnaed i'r gymdeithas.<br>• Sicrhau hawliau. |

| Thema | Nodau cydraddoldeb | Y cysylltiad â'r saith Nod Llesiant | Y cysylltiad ag Egwyddorion Datblygiad Cynaliadwy | Y cysylltiad â Social Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 |
|---|---|---|---|---|
| | cydnabod ac yn ymgorffori cydraddoldebau fel rhan o'u rôl.. | | | • Mewn perthynas ag oedolion; rheolaeth dros fywyd o ddydd i ddydd a chyfranogiad mewn gwaith. |
| **Deall ein Staff a'n Cymunedau** | **<u>Nod Cydraddoldeb 3</u>**<br>Datblygu systemau monitro gwydn i gasglu, coladu, monitro a chyhoeddi data cydraddoldebau am ein cyflogeion a'n cwsmeriaid, a fydd yn helpu'r Cyngor i sicrhau ei fod yn darparu gwasanaethau teg a hygyrch. | • Cymru iachach.<br>• Cymru sy'n fwy cyfartal.<br>• Cymru o gymunedau cydlynus. | • Tymor hir.<br>• Ataliad.<br>• Cydweithrediad.<br>• Ymglymiad. | • Iechyd corfforol a meddylion a llesiant emosiynol.<br>• Diogelu rhag cam drin ac esgeulustod.<br>• Addysg, hyfforddiant a hamdden.<br>• Perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol.<br>• Cyfraniad a wnaed i'r gymdeithas.<br>• Sicrhau hawliau.<br>• Mewn perthynas â phlant; llesiant corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol.<br>• Mewn perthynas ag oedolion; rheolaeth dros fywyd o ddydd i ddydd a chyfranogiad mewn gwaith. |
| **Rhywedd / Cyflog Cyfartal** | **<u>Nod Cydraddoldeb 4</u>**<br>Sicrhau tegwch o ran cyflogau ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. | • Cymru ffyniannus.<br>• Cymru sy'n fwy cyfartal. | • Tymor hir.<br>• Ataliad. | • Cyfraniad a wnaed i'r gymdeithas.<br>• Sicrhau hawliau.<br>• Mewn perthynas ag oedolion; rheolaeth dros |

| Thema | Nodau cydraddoldeb | Y cysylltiad â'r saith Nod Llesiant | Y cysylltiad ag Egwyddorion Datblygiad Cynaliadwy | Y cysylltiad â Social Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 |
|---|---|---|---|---|
| | | | | fywyd o ddydd i ddydd a chyfranogiad mewn gwaith. |